Dadansoddi ar gyfer Polisi

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
43/2022
DYDDIAD CYHOEDDI:
22/06/2022

# Adolygiad cwmpasu o ddulliau gweithredu seiliedig ar le o ymgysylltu â'r gymuned a darparu cymorth i gymunedau

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol **978-1-80364-361-8**

Adolygiad cwmpasu o ddulliau gweithredu seiliedig ar le o ymgysylltu â'r gymuned a darparu cymorth i gymunedau

Awdur: Sophie Baker

Adroddiad Ymchwil Llawn: Baker, S. (2022). *Adolygiad cwmpasu o ddulliau gweithredu seiliedig ar le o ymgysylltu â'r gymuned a darparu cymorth i gymunedau.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 43/2022.

Ar gael yn: https://llyw.cymru/dulliau-seiliedig-ar-le-o-ymgysylltu-chefnogi-cymunedol

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn fel rhan o interniaeth PhD Llywodraeth Cymru a drefnwyd drwy Raglen Hyfforddiant Doethurol Cymru'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru. Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Launa Anderson

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

**Rhestr o dermau**

| | |
|---|---|
| Dulliau gweithredu seiliedig ar le | (ABIs) |
| Awdurdodau lleol | (ALl) |
| Y Gronfa Datblygiad Plant | (CDF) |
| Prosiect Datblygu Cymunedol | (CDP) |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | (CGGC) |
| Partneriaethau Cynllunio Cymunedol | (CPPs) |
| Cronfa Adfywio Cymunedol | (CRF) |
| Cyngor Gwirfoddol Sirol | (CVC) |
| Cymunedau yn Gyntaf | (CynG) |
| Cymunedau 2.0 | (C2.0) |
| Dechrau'n Deg | (DD) |
| Yr Uned Cynhwysiant Digidol | (DIU) |
| Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop | (ERDF) |
| Cronfa Gymdeithasol Ewrop | (ESF) |
| Teuluoedd yn Gyntaf | (FF) |
| Adnodd Asesu Gwydnwch Teulu | (FRAIT) |
| Cynnyrch domestig gros | (GDP) |
| Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid | (IFS) |
| Sefydliad Ymchwil Gweithredu Gwirfoddol | (IVAR) |
| Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi | (KAS) |
| Grŵp Gweithredu Lleol | (LAG) |
| Cyrff Cyflawni Arweiniol | (LDBs) |
| Strategaethau Datblygu Lleol | (LDS) |
| Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru | (MALlC) |
| Y Fargen Newydd ar gyfer Cymunedau | (NDC) |
| Gogledd Iwerddon | (NI) |
| Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd | (OECD) |
| Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | (PSB) |
| Categorïau Coch, Oren, Gwyrdd | (RAG) |
| Cronfa Buddsoddi Cymdeithasol | (SIF) |
| Tasglu'r Cymoedd | (TC) |
| Credyd Cynhwysol | (UC) |
| Yr Undeb Ewropeaidd | (yr UE) |
| Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru | (WEFO) |
| Rhwydwaith Gwledig Cymru | (WRN) |

## Tabl cynnwys

1. Cyflwyniad…………………………………………………………………………….. 2
2. Strwythur yr adroddiad……………………………………………………………….4
3. Dull…….……………………………………………………………………………….5
4. Cefndir………………………………………………………………………………….7
    Diffiniadau a nodweddion dulliau gweithredu seiliedig ar le………………...7
    Y cyd-destun yng Nghymru ……………………………………..…………....12
    Tlodi ac amddifadedd yng Nghymru…………………………………………....12
    Cyd-destun polisi yng Nghymru……………………………………………….13
    Heriau sy'n wynebu cymunedau Cymru ……………………………………..15
    Rhesymeg y tu ôl i ddulliau gweithredu seiliedig ar le……………………....17
    Ymgysylltu â'r gymuned ……………………………………………………….20
    Sylfaen dystiolaeth ar gyfer dulliau gweithredu seiliedig ar le …………......21
    Heriau ehangach dulliau gweithredu seiliedig ar le……………..……......23
5. Canfyddiadau…………………………………………..…………………..25
6. Ymgysylltu â'r gymuned a darparu cymorth i gymunedau....................................31
7. Themâu rhwystrau a hwyluswyr……………………………………………….…36
8. Prif thema 1: Cynhwysiant cymunedol………………………………………………..37
9. Prif thema 2: Meithrin gallu…..………………………………………………..….43
10. Prif thema 3: Asedau cymunedol a nodweddion lleol ……..……………………..….46
11. Prif thema 4: Cyfleu nodau a chanlyniadau disgwyliedig………………………..... 49
12. Prif thema 5: Cydweithio……………………………………………..…………...52
13. Casgliadau ac argymhellion ……………………………………..……....………59

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth i lywio datblygiadau ar bolisi cymunedol Llywodraeth Cymru. Dechreuodd y gwaith hwn yn 2019 gyda chylch gwaith cychwynnol i gefnogi cymunedau Cymru drwy gyfnod pontio ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd [yr UE] ym mis Ionawr 2020. Yn dilyn dechrau pandemig COVID-19 ym mis Mawrth 2020, symudodd ffocws y gwaith i ystyried ystod ehangach o heriau newydd a rhai sy'n datblygu sy'n wynebu cymunedau Cymru – gan gynnwys pandemig COVID-19, yr argyfwng hinsawdd, ac effaith barhaus cyni a diwygio lles.

1.2 Nid yw'r heriau hyn yn effeithio ar bawb yn gyfartal, ac mae rhai cymunedau lle a chymunedau buddiant yn cael eu heffeithio'n anghymesur. Mae 'Cymru sy'n Fwy Cyfartal: Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010' Llywodraeth Cymru yn diffinio cymunedau buddiant a chymunedau lle fel a ganlyn:[1]

> Diffiniad cymunedau buddiant: "Mae'r rheini sy'n rhannu hunaniaeth yn cael eu disgrifio fel 'cymunedau buddiant'. Er enghraifft, efallai fod y bobl hyn yn: unig rieni; gofalwyr; y rheini sy'n rhannu iaith gyntaf; neu'r rheini sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu rhestru yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Ar ben hynny, grwpiau o bobl sy'n rhannu profiad, er enghraifft: pobl sydd wedi bod yn ddigartref; pobl sydd wedi defnyddio'r un system iechyd a gofal cymdeithasol leol; neu wasanaeth lleol. Yn unol â hynny, mae'n debyg y bydd pobl yn rhan o fwy nag un gymuned fuddiant." (t.8)
>
> Diffiniad cymunedau lle: "Mae'r rheini sy'n rhannu lleoliad daearyddol yn cael eu disgrifio fel 'cymunedau lle'. Er enghraifft, gallai'r lleoliadau hyn olygu lle mae pobl yn byw, yn gweithio, yn ymweld â nhw neu'n treulio llawer iawn o'u hamser yno." (t.8)

1.3 Mae dulliau gweithredu seiliedig ar le yn galluogi cyllid ac adnoddau i gael eu targedu at y cymunedau sydd fwyaf angen cymorth. Mae ymgysylltu cymunedol effeithiol yn hanfodol i lwyddiant dulliau gweithredu seiliedig ar le.

1.4 Yn yr ystyr ehangaf, gellir disgrifio dulliau gweithredu seiliedig ar le, a elwir hefyd yn 'fentrau ar sail ardal', fel *"unrhyw ymyriad, polisi, rhaglen neu gamau gweithredu sydd â'r nod o wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd ac sy'n cael eu cyflawni ar lefel leol neu ranbarthol, heb gynnwys ymyriadau ar lefel genedlaethol"*(t.6).[2]

---

[1] Llywodraeth Cymru, 2021. Cymru sy'n Fwy Cyfartal: Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010. Canllawiau Statudol https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cymru-sy%E2%80%99n-fwy-cyfartal.pdf

[2] McGowan, V.J., Buckner, S., Mead, R., McGill, E., Ronzi, S., Beyer, F. a Bambra, C., 2021. Examining the effectiveness of place-based interventions to improve public health and reduce health inequalities: an umbrella review. *BMC Public Health*, *21*(1), tt.1-17.

1.5 Nod yr adroddiad hwn yw gwneud y canlynol:

(1) Amlinellu'r rhesymeg ddamcaniaethol a'r dystiolaeth empirig sy'n sail i ddulliau gweithredu seiliedig ar le.

(2) Nodi astudiaethau achos o ddulliau gweithredu seiliedig ar le ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a darparu cymorth i gymunedau sydd wedi'u rhoi ar waith yng Nghymru.

(3) Nodi themâu hwyluswyr a rhwystrau ar draws y dulliau hyn y gellir eu defnyddio fel man cychwyn i ddatblygu fframwaith arferion gorau ar gyfer defnyddio dulliau gweithredu seiliedig ar le yng Nghymru.

## 2. Strwythur yr adroddiad

*Cyflwyniad*

2.1 Mae’r adran hon yn disgrifio cyd-destun y gwaith hwn a nodau’r adroddiad.

*Dull*

2.2 Mae’r adran hon yn amlinellu’r strategaeth chwilio, y meini prawf cymhwysedd ar gyfer dewis astudiaethau achos o ddulliau gweithredu seiliedig ar le, a’r dull o ddadansoddi data.

*Cefndir*

2.3 Mae’r adran hon yn rhoi rhywfaint o gyd-destun i’r gwaith hwn o ran yr heriau newydd a rhai sy'n datblygu y mae cymunedau Cymru yn eu hwynebu, ac mae'n adolygu’r llenyddiaeth ynghylch dulliau gweithredu seiliedig ar le – gan gynnwys eu nodweddion, eu rhesymeg, eu sylfaen dystiolaeth, a’u heriau ehangach.

*Canfyddiadau*

2.4 Mae’r adran hon yn cynnwys crynodeb o bob astudiaeth achos, gan gynnwys amlinelliad o’r cyd-destun/cefndir polisi, cyllideb, nodau, a’r raddfa ddaearyddol a dargedwyd. Yna disgrifir y ffyrdd yr oedd dulliau gweithredu seiliedig ar le yn ymgysylltu â chymunedau ac yn eu cefnogi, ac yna ceir drafodaeth ar themâu hwyluswyr a rhwystrau ar draws dulliau gweithredu seiliedig ar le.

*Casgliadau ac argymhellion*

2.5 Mae'r adran hon yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol, yr argymhellion, y cyfyngiadau, ac awgrymiadau ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.

## 3. Dull

3.1 Diben y gwaith hwn yw ffurfio rhan o'r sylfaen dystiolaeth i lywio datblygiadau yn y dyfodol ar bolisi cymunedol Llywodraeth Cymru.

3.2 Trwy drafodaethau gyda swyddogion polisi a Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, datblygwyd cynnig ymchwil. Yna, cafodd hwn ei adolygu gan randdeiliaid mewnol o'r Is-adran Cymunedau ac eraill o fewn Llywodraeth Cymru sydd ag arbenigedd perthnasol yn y pwnc ymchwil.

3.3 Mae dwy ran i'r adolygiad hwn: mae'r adran "Cefndir" yn rhoi rhywfaint o gyd-destun i'r gwaith hwn o ran heriau newydd a rhai sy'n datblygu y mae cymunedau yng Nghymru yn eu hwynebu. Trafodir llenyddiaeth allweddol ynghylch dulliau gweithredu seiliedig ar le hefyd, gan gynnwys eu nodweddion, eu rhesymeg, eu sylfaen dystiolaeth, a heriau ehangach.

3.4 Oherwydd cyfyngiadau amser a ffocws eang yr adolygiad hwn, defnyddiwyd methodoleg adolygiad cwmpasu i gyfuno llenyddiaeth allweddol ynghylch dulliau gweithredu seiliedig ar le ar gyfer adran "Cefndir" yr adolygiad hwn. Diffinnir adolygiad cwmpasu fel:

> *"Math o ffordd systematig o nodi pa lenyddiaeth sydd ar gael mewn maes penodol neu faes ymchwil penodol a rhoi cyfle i adnabod cysyniadau allweddol; bylchau yn yr ymchwil; a mathau a ffynonellau o dystiolaeth i lywio ymarfer, llunio polisïau, ac ymchwil."* (t.373)[3]

3.5 I nodi llenyddiaeth berthnasol, defnyddiwyd termau chwilio eang: 'Place based' a thermau cysylltiedig, e.e. 'Area Based Initiat* AND communit*', 'community engagement', 'community co-production', 'community empowerment', 'community support'.

3.6 Cynhaliwyd chwiliadau gan ddefnyddio peiriannau chwilio academaidd (e.e. Google Scholar), cronfeydd data electronig (e.e. catalog y Llyfrgell Brydeinig, Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru), drwy chwilio â llaw drwy restrau cyfeirio papurau perthnasol, a thrwy drafod â rhanddeiliaid mewnol.

3.7 Nod ail ran yr adolygiad oedd nodi astudiaethau achos o ddulliau gweithredu seiliedig ar le a roddwyd ar waith yng Nghymru a nodi rhwystrau a hwyluswyr cyffredin i ymgysylltu â'r gymuned a darparu cymorth i gymunedau.

[3] Pham, M.T., Rajić, A., Greig, J.D., Sargeant, J.M., Papadopoulos, A. a McEwen, S.A., 2014. A scoping review of scoping reviews: advancing the approach and enhancing the consistency. *Research synthesis methods*, *5*(4), tt.371-385. https://doi.org/10.1002/jrsm.1123 (Saesneg yn unig).

3.8 Defnyddir y meini prawf canlynol i ddewis astudiaethau achos:

- Rhaglenni seiliedig ar leoedd yng Nghymru sy’n berthnasol i’r heriau a amlinellir yn yr adroddiad.
- Rhaglenni sydd wedi bod yn destun gwerthusiad cadarn a chanddynt adroddiadau cyhoeddedig (gan gynnwys gwerthusiadau'r llywodraeth ac erthyglau mewn cyfnodolion).
- Rhaglenni a chanddynt gwerthusiadau cyhoeddedig sy'n disgrifio ac yn arfarnu modelau ymgysylltu â'r gymuned a darparu cymorth i gymunedau.

***Siartio'r synthesis data a thystiolaeth***

3.9 Dewiswyd astudiaethau achos o raglenni seiliedig ar leoedd, a defnyddiwyd gwerthusiadau i goladu data ansoddol am ymgysylltu â’r gymuned a darparu cymorth i gymunedau, a’r rhwystrau a’r hwyluswyr a wynebwyd gan y rhaglenni.

***Dadansoddiad o werthusiadau***

3.10 Defnyddiwyd dadansoddiad thematig[4] i gynhyrchu themâu ac is-themâu ar draws y rhaglenni gwahanol. Roedd y rhain yn ymwneud â rhwystrau a hwyluswyr i ymgysylltu â'r gymuned a darparu cymorth i gymunedau. Defnyddiwyd themâu ac is-themâu i ddatblygu argymhellion ar gyfer datblygu polisi cymunedol newydd.

[4] Braun, V. a Clarke, V., 2006. Using thematic analysis in psychology. *Qualitative research in psychology*, *3*(2), tt.77-101. https://doi.org/10.1191/1478088706qp063oa (Saesneg yn unig).

## 4. Cefndir

### *Diffiniadau a nodweddion dulliau gweithredu seiliedig ar le*

4.1 Cyn ystyried dulliau gweithredu seiliedig ar le i ymgysylltu â'r gymuned a darparu cymorth i gymunedau, mae'n bwysig cael cysyniad o'r hyn a olygir gan "lle". Awgrymwyd bod tair elfen graidd i'r hyn a olygir gan le, sef Lleoliad, bro, ac ymdeimlad o le.[5] Mae "lleoliad" yn cyfeirio at ardal ddaearyddol a ddiffinnir yn ffisegol; gellir meddwl am y "fro" fel y lleoliad diriaethol sy'n dylanwadu ar rwydweithiau cymdeithasol rhwng pobl mewn lle; Ac mae "ymdeimlad o le" yn disgrifio'r ffyrdd y mae unigolyn yn dirnad ardal benodol. Mae dulliau gweithredu seiliedig ar le, a elwir hefyd yn 'fentrau ar sail ardal', yn anelu at ymgorffori'r tair elfen hyn i fynd i'r afael â materion ar lefel leol.

4.2 Darparodd adolygiad gan y Sefydliad Ymchwil Gweithredu Gwirfoddol ar gyfer Lankelly Chase (2017) y diffiniad gweithredol canlynol o ddulliau gweithredu seiliedig ar le.[6]

> *"Ystod o ddulliau gweithredu, o roi grantiau mewn ardal ddaearyddol benodol i bartneriaethau cydweithredol amlochrog, hirdymor gyda'r nod o gyflawni newid sylweddol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n fwy na therm yn unig i ddisgrifio lleoliad targed y cyllid; mae hefyd yn disgrifio arddull ac athroniaeth dull sy'n ceisio sicrhau newid 'cydgysylltiedig' i systemau."* (t.5)

4.3 Mae dulliau gweithredu seiliedig ar le yn amrywio o ran eu ffocws – mae nodweddion wedi'u hamlinellu mewn fframwaith gan Lywodraeth Cymru (2015).[7] Mewn dulliau gweithredu o'r bôn i'r brig (neu a arweinir gan y gymuned), mae blaenoriaethau a chamau gweithredu'n cael eu llywio gan y gymuned yn yr ardal darged, ond mewn dulliau gweithredu seiliedig ar le o'r brig i'r bôn, y llywodraeth ganolog neu'r llywodraeth leol sy'n eu pennu a chânt eu llywio gan amcanion strategol a bennwyd ymlaen llaw. Gall dulliau gweithredu gymryd ffocws cul gyda'r

---

[5] Cresswell, T., 2009. "Place". *International encyclopaedia of human geography*, *8*, tt.169-177. https://www.elsevier.com/books/international-encyclopedia-of-human-geography/kitchin/978-0-08-044911-1 (Saesneg yn unig).

[6] Taylor, M., Buckly, E. a Hennessy, C., 2017. Historical review of place based approaches. *Sefydliad Ymchwil Gweithredu Gwirfoddol:Llundain, y DU.* https://lankellychase.org.uk/wp-content/uploads/2017/10/Historical-review-of-place-based-approaches.pdf (Saesneg yn unig).

[7] Llywodraeth Cymru., 2015. Gwerthuso proses Cymunedau yn Gyntaf: Atodiad 1: Theori Newid https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150226-communities-first-process-evaluation-appendix1-en.pdf (Saesneg yn unig ond gweler adroddiadau eraill yn Gymraeg: https://llyw.cymru/gwerthuso-cymunedau-yn-gyntaf).

nod o gyflawni canlyniad penodol neu gallant gael ffocws eang a mynd i'r afael ag ystod eang o faterion cymunedol. Yn ychwanegol, gall dulliau gweithredu seiliedig ar le gynnwys cyllid refeniw neu gyfalaf. Ar gyfer y cyntaf, mae costau'r gweithgareddau'n cael eu hariannu gan y rhaglen, ond ar gyfer yr olaf, costau prynu neu ddatblygu asedau sefydlog sy'n cael eu hariannu gan y rhaglen. Yn olaf, gall dulliau gweithredu seiliedig ar le ganolbwyntio ar bobl, sy'n golygu eu bod yn targedu pobl o fewn yr ardal a dargedwyd yn ofodol, neu gallant fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar le, lle mae'r ymyriad yn anelu at wneud gwelliannau i'r ardal ddiffiniedig gyda'r bwriad y bydd hyn yn ei dro yn sicrhau canlyniadau gwell i unigolion sy'n byw yno.

4.4 Fel arfer, caiff dulliau gweithredu seiliedig ar le eu defnyddio fel adnodd i fynd i'r afael ag anghyfartalwch mewn tlodi ac anfantais ddaearyddol. Cynsail canolog y dull gweithredu yw bod *"tlodi wedi'i grynhoi'n ofodol, yna felly y dylai'r ymateb i dlodi fod hefyd"*(t.3).[8]

4.5 Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi ymyriadau wedi'u targedu'n ofodol ar waith ers dros hanner can mlynedd.[9] Cyflwynodd y llywodraeth Lafur y Prosiect Datblygu Cymunedol wedi'i dargedu'n ofodol cyntaf ym 1969, a bu ar waith tan 1978.[10] Enillodd targedu seiliedig ar leoedd fwy o fomentwm ym 1997 mewn ymateb i darged Llafur Newydd i ddileu tlodi plant ac allgáu cymdeithasol. Yn ystod y cyfnod hwn, sefydlwyd rhaglen y Fargen Newydd ar gyfer Cymunedau, a lansiwyd ym 1998 ac a fu ar waith am ddeng mlynedd.[11] Sefydlodd rhaglen y Fargen Newydd ar gyfer Cymunedau bartneriaethau mewn 39 o ardaloedd difreintiedig yn Lloegr ac roedd ganddi ffocws cryf ar ddulliau a arweinir gan y gymuned i adfywio cymdogaethau.[12]

---

[8] Llywodraeth yr Alban, 2016. Rationales for Place-Based Approaches in Scotland, What Works Scotland Working Paper. http://whatworksscotland.ac.uk/wp-content/uploads/2017/03/RationalesforPlacebasedApproachesinScotland.pdf (Saesneg yn unig).

[9] Muscat, R., 2010. Area Based Initiatives--Do They Deliver?. Canolfan Strategaethau Economaidd Lleol [CLES]. https://www.cles.org.uk/wp-content/uploads/2011/01/Area-Based-Initiatives-do-they-deliver.pdf (Saesneg yn unig).

[10] Green, J. A Chapman, A., 1992. The British Community Development project: Lessons for today. *Community Development Journal*, *27*(3), tt.242-258. https://doi.org/10.1093/oxfordjournals.cdj.a038611 (Saesneg yn unig).

[11] Batty, E., Beatty, C., Foden, M., Lawless, P., Wilson, I. a Pearson, S., 2010. The new deal for communities experience: a final assessment. http://shura.shu.ac.uk/29277/1/the-new-deal-for-communities-experience-a-final-assessment.pdf (Saesneg yn unig).

[12] Muscat, R., 2010. Area Based Initiatives—Do They Deliver?. Canolfan Strategaethau Economaidd Lleol [CLES]. https://www.cles.org.uk/wp-content/uploads/2011/01/Area-Based-Initiatives-do-they-deliver.pdf (Saesneg yn unig).

4.6 Yn dilyn yr argyfwng ariannol byd-eang yn 2008, gostyngodd cyfraddau cynhyrchiant yn y DU yn gyflym. Fodd bynnag, bu amrywiad daearyddol amlwg o ran adferiad – yn Llundain a'r ardaloedd cyfagos bu twf cynhyrchiant cryf ond mewn rhanbarthau eraill yn y DU, gan gynnwys Gogledd Lloegr, Canolbarth Lloegr, Cymru, a Gogledd Iwerddon, mae wedi aros yn ddisymud.[13] Mae Adolygiad Marmot (2020) hefyd wedi dangos bod yr anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol rhwng y lleoedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yn Lloegr wedi ehangu dros y deng mlynedd diwethaf, ac mae'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, a ddisgrifiwyd fel cymunedau sy'n "cael eu gadael ar ôl", yn profi mwy o golledion i asedau cymunedol, a thoriadau i adnoddau a gwasanaethau lleol.[14]

*4.7* Gwnaeth astudiaeth a gyhoeddwyd yn 2018[15] a gymharodd y DU â 30 o wledydd eraill y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd [OECD], gan ddefnyddio amryw ddangosyddion anghydraddoldeb, ddod i'r casgliad mai'r DU yw *"bron yn sicr y wlad incwm uchel fwyaf rhyngranbarthol anghyfartal"* (t.263). Cefnogir yr honiad hwn hefyd gan astudiaeth 2020 gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.[16]

*4.8* Mae anghyfartalwch daearyddol rhanbarthol amlwg o ran *"perfformiad economaidd, cynhyrchiant, cyfraddau cyflogaeth, ac incwm a thlodi aelwydydd"* yn amlwg hefyd *o fewn* gwledydd cyfansoddol y DU – Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon[17] (t.1).

*4.9* Mae McCann (2016) yn dadlau bod system lywodraethu hynod ganolog a gofodol ddall y DU yn anaddas ar gyfer yr heterogenedd rhanbarthol a welir yn y DU, sydd, yn ei dro, yn darparu cyfiawnhad dros newid y polisi tuag at ffyrdd o weithio mwy seiliedig ar leoedd.[18]

---

[13] McCann, P., 2019. UK research and innovation: A place-based shift. Swindon: UK Research and Innovation. https://www.ifm.eng.cam.ac.uk/uploads/Research/CSTI/UKRI_Place/McCann_-_UK_Research_and_Innovation_-_A_Place-Based_Shift_vFinal.pdf (Saesneg yn unig).

[14] Marmot, M., 2020. Health equity in England: The Marmot review 10 years on. https://www.health.org.uk/publications/reports/the-marmot-review-10-years-on (Saesneg yn unig).

[15] McCann, P., 2020. Perceptions of regional inequality and the geography of discontent: insights from the UK. *Regional Studies*, *54*(2), tt.256-267. https://www.tandfonline.com/doi/pdf/10.1080/00343404.2019.1619928?needAccess=true (Saesneg yn unig).

[16] Cyllideb y Werdd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 2020. https://ifs.org.uk/uploads/CH7-IFS-Green-Budget-2020-Levelling-up.pdf (Saesneg yn unig).

[17] Llywodraeth y DU, 2021. Inequalities of region and place, 'Library Briefing' Tŷ'r Arglwyddi. Dadl ar 14 Hydref 2021 https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/LLN-2021-0027/LLN-2021-0027.pdf (Saesneg yn unig).

[18] McCann, P., 2019. UK research and innovation: A place-based shift. Swindon: UK Research and Innovation. https://www.ifm.eng.cam.ac.uk/uploads/Research/CSTI/UKRI_Place/McCann_-_UK_Research_and_Innovation_-_A_Place-Based_Shift_vFinal.pdf (Saesneg yn unig).

4.10 Er mwyn mynd i'r afael â'r anghyfartalwch daearyddol parhaus hwn yn y DU, cyhoeddodd y llywodraeth Geidwadol y Papur Gwyn Ffyniant Bro ym mis Chwefror 2022.[19] Roedd yr adroddiad yn amlinellu camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n cyd-fynd â'r chwe ffactor a ganlyn: (t.4-5)[20]

1. Cyfalaf ffisegol – seilwaith, peiriannau a thai.
2. Cyfalaf dynol – sgiliau, iechyd, a phrofiad y gweithlu.
3. Cyfalaf anniriaethol – arloesedd, syniadau, a phatentau.
4. Cyfalaf ariannol – adnoddau sy'n cefnogi'r gwaith o gyllido cwmnïau.
5. Cyfalaf cymdeithasol – cryfder cymunedau, cydberthnasau ac ymddiriedaeth.
6. Cyfalaf sefydliadol – arweinyddiaeth leol, a gallu ac adnoddau.

4.11 Yn ogystal â hyn, cyflwynodd Llywodraeth y DU Gronfa Adfywio Cymunedol yn 2021 a bydd cyllid yn cael ei ddyrannu'n ffafriol i gant o "leoedd blaenoriaeth" ledled y DU a gaiff eu dewis ar sail mynegai "cadernid economaidd". Nod y Gronfa Adfywio Cymunedol yw treialu ymyriadau cymunedol newydd i baratoi ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a ddatblygwyd i ddisodli cronfeydd strwythurol yr UE.[21]

4.12 Mae'r llywodraethau datganoledig hefyd wedi cyflwyno eu dulliau gweithredu seiliedig ar le eu hunain i fynd i'r afael â thlodi. Adeiladodd prosiect "What Works Scotland" Llywodraeth yr Alban (2014-2019) sylfaen dystiolaeth o amgylch dulliau gweithredu seiliedig ar le a'u cymhwysiad yn yr Alban.[22] Yn yr Alban, mae dulliau gweithredu seiliedig ar le wedi'u seilio ar Community Empowerment Act (2015) Llywodraeth yr Alban, sy'n anelu at *"grymuso cyrff cymunedol drwy*

---

[19] Llywodraeth y DU, 2022. Sicrhau Ffyniant Bro Ledled y Deyrnas Unedig. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1074213/Levelling_up_the_UK_white_paper_Book_Welsh.pdf

[20] Llywodraeth y DU, 2022. Sicrhau Ffyniant Bro Ledled y Deyrnas Unedig (Crynodeb Gweithredol). https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1052046/Executive_Summary.pdf (Saesneg yn unig). Adroddiad llawn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1074213/Levelling_up_the_UK_white_paper_Book_Welsh.pdf ac ar-lein: https://www.gov.uk/government/publications/levelling-up-fund-monitoring-and-evaluation-strategy/5274070a-c5ae-4cb9-a0ee-6a10ffe3eab5#crynodeb-gweithredol

[21] Llywodraeth y DU, 2021. Y Gronfa Adnewyddu Cymunedol a'r Gronfa Ffyniant Bro yng Nghymru https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CDP-2021-0077/CDP-2021-0077.pdf (Saesneg yn unig).

[22] Llywodraeth yr Alban, 2019. What Works Scotland – Place-based approaches http://whatworksscotland.ac.uk/topics/place-based-approaches/ (Saesneg yn unig).

*berchnogaeth neu reolaeth tir ac adeiladau, a thrwy gryfhau eu lleisiau mewn penderfyniadau am wasanaethau cyhoeddus"*.[23] Mae hyn yn gofyn am gynllunio ar lefel is na'r awdurdod lleol – i'r perwyl hwn, mae 32 o Bartneriaethau Cynllunio Cymunedol wedi'u sefydlu yn yr Alban. Mae Partneriaethau Cynllunio Cymunedol yn defnyddio ystod eang o ddulliau i fynd i'r afael â chrynodiadau gofodol o dlodi, sy'n cynnwys cynllunio ac adfywio cymunedau lleol.[24] Mae gan ddulliau gweithredu seiliedig ar le eraill nodau culach, er enghraifft, canolbwyntio ar gefnogi teuluoedd neu wella mynediad at wasanaethau.

4.13 Yng Ngogledd Iwerddon, cyflwynodd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon gronfa buddsoddi gymdeithasol (Social Investment Fund), sydd wedi bod ar waith ers 2011. Rhannwyd Gogledd Iwerddon yn naw parth buddsoddi a dyrannwyd cyllid i'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn seiliedig ar fesurau amddifadedd lluosog. Nod cyffredinol y gronfa buddsoddi gymdeithasol oedd *"lleihau tlodi, diweithdra, a dirywiad ffisegol"*(t.2).[25] Roedd gan y rhaglen bedwar amcan strategol yn gysylltiedig ag 1) gwella cyflogaeth drwy ganolbwyntio ar addysg, sgiliau, mynediad at swyddi, a denu busnes i ardaloedd;
2) mynd i'r afael â ffactorau systematig sy'n ymwneud ag amddifadedd, gan gynnwys iechyd meddwl a chorfforol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, a helpu cymunedau i gydweithio'n fwy effeithiol; 3) gwella gwasanaethau cymunedol drwy fuddsoddi mewn cyfleusterau newydd neu wella rhai presennol; a 4) gwneud gwelliannau i'r amgylchedd ffisegol er mwyn denu buddsoddiad i'r ardal a gwneud ardaloedd yn lleoedd mwy deniadol i fyw ynddynt.

### *Y cyd-destun yng Nghymru*

4.14 Ymhlith y dulliau gweithredu seiliedig ar le sydd wedi'u hanelu at drechu tlodi yng Nghymru mae Cymunedau yn Gyntaf [CynG] (2001–2018) a Dechrau'n Deg [DD] (2006/07 – presennol). Trafodir y rhaglenni hyn, ynghyd ag enghreifftiau eraill o ddulliau gweithredu seiliedig ar le a roddwyd ar waith yng Nghymru, yn fanwl yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

---

[23] Llywodraeth yr Alban, 2017. Community Empowerment (Scotland) Act: summary. https://www.gov.scot/publications/community-empowerment-scotland-act-summary/#:~:text=of%20our%20website.-,The%20Act,topics%20covered%20by%20the%20Act (Saesneg yn unig).

[24] Llywodraeth yr Alban, 2016. Rationales for Place-Based Approaches in Scotland, What Works Scotland Working Paper. http://whatworksscotland.ac.uk/wp-content/uploads/2017/03/RationalesforPlacebasedApproachesinScotland.pdf (Saesneg yn unig).

[25] Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, 2018. Northern Ireland Audit Office: The Social Investment Fund (2018) https://www.niauditoffice.gov.uk/files/niauditoffice/media-files/NIAO_Social%20Investment%20Fund%20Report.pdf (Saesneg yn unig).

4.15 Diben yr adran hon yw tynnu sylw at yr heriau allweddol y mae cymunedau yng Nghymru yn eu hwynebu, a darparu sail resymegol ar gyfer defnyddio dulliau gweithredu seiliedig ar le i ymgysylltu â chymunedau a darparu cymorth iddynt yng Nghymru.

***Tlodi ac amddifadedd yng Nghymru***

4.16 Yn ôl ystadegau swyddogol, mae bron i chwarter poblogaeth Cymru (23%) yn byw mewn tlodi incwm cymharol, o gymharu â 22% yn Lloegr, 19% yn yr Alban, a 18% yng Ngogledd Iwerddon. Yng Nghymru, mae'r ganran hon wedi aros yr un fath, fwy neu lai, rhwng 1997 a 2020.[26]

4.17 Mae anghyfartalwch daearyddol amlwg mewn cyfraddau amddifadedd yng Nghymru. Roedd adroddiad diweddaraf canlyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru [MALIC][27] yn dangos amddifadedd cymharol uchel yn clystyru yn ninasoedd De Cymru a'r cymoedd, ac mewn rhai rhannau o arfordir Gogledd Cymru a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r patrwm hwn o amddifadedd wedi aros yn debyg dros amser – roedd y deg ardal fwyaf difreintiedig yn 2014 yn dal i gael eu hystyried fel y lleoedd mwyaf difreintiedig yn 2019. Mae'r dadansoddiad hefyd yn tynnu sylw at 26 o ardaloedd mewn deg awdurdod lleol a chanddynt *"amddifadedd â gwreiddiau dwfn"* (t.8), sy'n golygu eu bod ymhlith yr hanner cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn ôl dadansoddiad MALIC dros y pymtheg mlynedd diwethaf.

***Cyd-destun polisi yng Nghymru***

4.18 Er nad yw'n hollgynhwysfawr, nod yr adran hon yw amlinellu rhai o'r datblygiadau cyfreithiol a pholisi allweddol y gellid ystyried eu bod yn effeithio ar y defnydd o ddulliau gweithredu seiliedig ar le i fynd i'r afael ag anghyfartalwch daearyddol yng Nghymru.

*4.19* Er mwyn sicrhau y ceir gwelliannau hirdymor i *"lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol"* pobl sy'n byw yng Nghymru, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2015,[28] sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus fynd i'r afael â'r saith nod

[26] Llywodraeth Cymru, 2021. Ystadegau Llywodraeth Cymru, Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2019 i Fawrth 2020 https://llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2022/3/3/1648623179/tlodi-incwm-cymharol-ebrill-2019-i-fawrth-2020.pdf

[27] Llywodraeth Cymru, 2019. Ystadegau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019: Adroddiad Canlyniadau https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-11/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-2019-adroddiad-canlyniadau-527.pdf

[28] Llywodraeth Cymru, 2015. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yr Hanfodion https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html

llesiant wrth wneud penderfyniadau: *"Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang"* (t.3). Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n gyfrifol am *"Asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal; a phennu amcanion i sicrhau cyfraniad gorau posibl y Byrddau Gwasanaethau Lleol at y nodau llesiant"* (t.11).

4.20 Yn ogystal, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[29], a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2016, yn nodi fframwaith ar gyfer gwella gwasanaethau cymdeithasol. Mae gan y Ddeddf bedair egwyddor sy'n gysylltiedig ag 1) gwella llesiant, 2) rhoi unigolion a gofalwyr wrth galon y penderfyniadau am y cymorth y maent yn ei dderbyn, 3) rhoi mesurau ataliol ar waith mewn cymunedau i fynd i'r afael â phroblemau pobl cyn iddynt gyrraedd adeg dyngedfennol, a 4) atgyfnerthu gwaith partneriaeth ar draws sefydliadau.

4.21 Mae Llywodraeth Cymru hefyd ar hyn o bryd yn y broses o gyflwyno Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) newydd[30] a fydd yn *"1) cryfhau a hyrwyddo cysondeb yn y system partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru, 2) sicrhau canlyniadau gwaith teg, a 3) sicrhau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol"*.

4.22 Ym mis Mawrth 2021, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, sy'n ceisio lleihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol,[31] ac, ym mis Mehefin 2021 (diweddarwyd ym mis Rhagfyr 2021), amlinellodd rhaglen chweched tymor y Senedd ddeg amcan llesiant[32] (t.8):

1. *Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel.*

---

[29] Llywodraeth Cymru, 2019. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Gwybodaeth hanfodol https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/deddf-gwasanaethau-cymdeithasol-a-llesiant-cymru-2014-gwybodaeth-hanfodol.pdf

[30] Llywodraeth Cymru, 2021. Bil Drafft Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) https://llyw.cymru/bil-drafft-partneriaeth-gymdeithasol-chaffael-cyhoeddus-cymru

[31] Llywodraeth Cymru, 2021. Cymru sy'n Fwy Cyfartal: Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010. Canllawiau Statudol https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cymru-sy%E2%80%99n-fwy-cyfartal.pdf

[32] Llywodraeth Cymru, 2021. Rhaglen Lywodraethu: Diweddariad https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026-html

2. *Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi.*
3. *Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed.*
4. *Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math.*
5. *Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol.*
6. *Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon, a'r celfyddydau i ffynnu.*
7. *Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl.*
8. *Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt.*
9. *Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.*
10. *Arwain Cymru mewn sgwrs genedlaethol ar y cyd ynglŷn â'n dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar y llwyfan byd-eang.*

***Heriau sy'n wynebu cymunedau Cymru***

*Cyni a diwygio lles*

4.23 Mae cyfres o heriau newydd a rhai sy'n datblygu i gyflawni'r nodau hyn mewn cymunedau yng Nghymru. Yn dilyn argyfwng ariannol byd-eang 2008/09, cyflwynodd Llywodraeth y DU bolisi o gyni er mwyn lleihau'r diffyg yn y gyllideb. Arweiniodd y polisi hwn o gyni at doriadau helaeth i gyllidebau'r sector cyhoeddus a llywodraeth leol – gan arwain at straen ar allu'r sectorau gwirfoddol a chymunedol i ddarparu gwasanaethau.[33]

4.24 Hefyd, o gofio bod incwm pobl yng Nghymru yn is ar gyfartaledd, a bod cyfran uwch o'r boblogaeth yn derbyn budd-daliadau nawdd cymdeithasol o gymharu â gwledydd eraill y DU / Prydain Fawr,[34] mae cyflwyno Credyd Cynhwysol yn debygol o gael effaith anghymesur ar Gymru.[35] Adlewyrchir hyn mewn ymchwil gan Ymddiriedolaeth Trussell, a ganfu fod cynnydd o 30% yn y defnydd o fanciau bwyd mewn ardaloedd lle mae Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno ers chwe mis

---

[33] Downe, J. a Taylor-Collins, E., 2019. Wedi cyrraedd y pwynt tyngedfennol? Llywodraeth leol Cymru a chyni. Mehefin 2019. https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2019/06/190418-Austerity-Report-FINAL-Cymraeg-1.pdf

[34] Ffynhonnell: StatXplore yr Adran Gwaith a Phensiynau, Mawrth 2022, data dros dro.
[35] Sefydliad Joseph Rowntree, 2020. Briff – Tlodi yng Nghymru 2020 https://www.jrf.org.uk/report/poverty-wales-2020 (Saesneg yn unig).

neu fwy, o gymharu â chynnydd o 12% mewn ardaloedd lle nad yw Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno.[36]

4.25 Mae'r heriau hyn wedi'u dwysáu gan bandemig COVID-19 – o ddechrau 2020 i ganol 2020, gwelwyd cynnydd o 63% yn nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yng Nghymru, ac mae dileu'r codiad o £20 i'r Credyd Cynhwysol a'r Credyd Treth Gwaith, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, wedi cael effeithiau negyddol pellach ar aelwydydd difreintiedig yng Nghymru.[37]

*Allgáu digidol*

4.26 Mae mynediad i'r rhyngrwyd yn dod yn fwyfwy hanfodol i allu cyfranogi'n llawn mewn cymdeithas, hyd yn oed yn fwy felly ers pandemig COVID-19 – mae cynnydd yn y ddibyniaeth ar blatfformau ar-lein bellach i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus a gwybodaeth ac i hawlio budd-daliadau lles, yn ogystal â chynnal cysylltiadau cymdeithasol. Amcangyfrifir bod 7% o boblogaeth Cymru wedi'u hallgáu'n ddigidol (nid ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd yn bersonol), cyfran uwch na gweddill y DU.[38] Mae rhai grwpiau yn fwy tebygol o brofi allgáu digidol, er enghraifft, oedolion hŷn, pobl ar incwm is, a phobl anabl.

*Ymadael â'r UE*

4.27 Mae'r DU yn ymadael â'r UE yn dilyn refferendwm 2016 hefyd wedi dwyn ansicrwydd i gymunedau Cymru. Derbyniodd Cymru tua £400 miliwn y flwyddyn o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd rhwng 2014 a 2020 – a oedd yn fwy o gyllid fesul pen na gwledydd eraill y DU. Bydd cymunedau yng Nghymru felly'n cael eu heffeithio'n anghymesur os na cheir arian cyfatebol gan Lywodraeth y DU i gefnogi cymunedau Cymru. Hyd yn hyn, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a'r Gronfa Adfywio Cymunedol i fynd i'r afael â cholli cyllid yr UE.

*COVID-19*

4.28 Fel y nodwyd uchod, mae COVID-19 wedi dwysáu'r anfantais oedd eisoes yn bodoli yng Nghymru – mae'r pandemig wedi cael mwy o effaith negyddol ar unigolion sydd mewn sefyllfa economaidd-gymdeithasol is, ac maent yn wynebu

---

[36] Sefydliad Bevan, 2018. Universal Credit: Implications for devolved policies and services https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2018/11/UC-report-final.pdf (Saesneg yn unig).
[37] Sefydliad Joseph Rowntree, 2020. Briff – Tlodi yng Nghymru 2020 https://www.jrf.org.uk/report/poverty-wales-2020 (Saesneg yn unig).

[38] Llywodraeth Cymru, 2021. Cynhwysiant digidol yng Nghymru https://www.digitalcommunities.gov.wales/cy/cynhwysiant-digidol-yng-nghymru.

risg ychwanegol i'w hiechyd, cyflogaeth, safonau byw, ac addysg.[39] Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno mesurau i liniaru effaith y pandemig ar blant a theuluoedd, er enghraifft, y Gronfa Datblygiad Plant (Hydref 2020 – Mawrth 2022).

4.29 Rhoddwyd 31% o swyddi yng Nghymru ar ffyrlo ar ddechrau'r pandemig ac roedd rhai ardaloedd – lleoedd a oedd eisoes yn wynebu caledi economaidd fel arfer – mewn perygl sylweddol uwch o swyddi'n cael eu rhoi ar ffyrlo neu o golli swyddi'n barhaol oherwydd bod cyfrannau uwch o unigolion mewn cyflogaeth ansicr ac yn gweithio mewn diwydiannau sydd mewn perygl.[40]

4.30 Mae pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, oedolion hŷn, menywod, a phlant sy'n profi cam-drin domestig, a phobl sydd ag anawsterau sydd eisoes yn bodoli ynghylch iechyd meddwl neu iechyd corfforol hefyd wedi profi risg ychwanegol i'w hiechyd a'u diogelwch ariannol o ganlyniad i'r pandemig.[41]

*Y newid yn yr hinsawdd*

4.31 Yn olaf, mae'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol yn fygythiad byd-eang. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflawni allyriadau carbon sero net erbyn 2050 yn unol â chyngor Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (2019).[42] Mae effeithiau'r newid yn yr hinsawdd eisoes yn cyflwyno heriau mawr i rai cymunedau yng Nghymru, yn enwedig y rheini sydd wedi dioddef llifogydd dro ar ôl tro dros y blynyddoedd diwethaf. Gyda pherygl llifogydd pellach, erydu arfordirol a thywydd eithafol yn debygol o gynyddu dros y deng mlynedd nesaf, bydd llawer mwy o bobl yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol, a bydd yn hanfodol gweithio gyda chymunedau Cymru i liniaru risgiau cymaint ag sy'n bosibl.

---

[39] Llywodraeth Cymru, 2020. Cymru fwy Cyfartal: y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol: Enghreifftiau o anghydraddoldebau canlyniad oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol a COVID-19 https://llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2021/1/3/1610566294/cymru-fwy-cyfartal-y-ddyletswydd-economaidd-gymdeithasol.pdf

[40] Sefydliad Joseph Rowntree, 2020. Briff – Tlodi yng Nghymru 2020 https://www.jrf.org.uk/report/poverty-wales-2020 (Saesneg yn unig).

[41] Llywodraeth Cymru, 2020. Cymru Fwy Cyfartal: y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol: Enghreifftiau o anghydraddoldebau canlyniad oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol a COVID-19 https://llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2021/1/3/1610566294/cymru-fwy-cyfartal-y-ddyletswydd-economaidd-gymdeithasol.pdf

[42] Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, 2020. The path to Net Zero and reducing emissions in Wales. Executive summary https://www.theccc.org.uk/publication/the-path-to-net-zero-and-progress-reducing-emissions-in-wales/ (Saesneg yn unig).

***Rhesymeg y tu ôl i ddulliau gweithredu seiliedig ar le***

4.32 O ran y rhesymeg dros ddefnyddio dulliau gweithredu seiliedig ar le yng Nghymru, mae tystiolaeth glir nad yw'r heriau hyn yn effeithio ar bob cymuned yn gyfartal, ac mae rhai cymunedau lle a chymunedau buddiant yn cael eu heffeithio'n anghymesur.

4.33 Yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n cefnogi'r rôl ganolog y mae cymunedau a lleoedd yn eu chwarae wrth lunio iechyd a llesiant, mae adolygiadau Marmot[43][44] wedi argymell y dylai polisi ganolbwyntio ar y canlynol: *"Creu a datblygu lleoedd a chymunedau iach a chynaliadwy"*, sy'n cynnwys *"lliniaru effaith anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd"* a *"gwella cyfalaf cymunedau a lleihau ynysigrwydd cymdeithasol ar draws y gymuned gyfan"*(t.93).

4.34 Mae targedu cymorth yn ofodol yn rhoi'r cyfle i fynd i'r afael ag amodau economaidd-gymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldebau canlyniadau.[45]

4.35 Amlinellodd Macintyre ac eraill (1993)[46] bum cydran o le y gall llywodraeth leol ddylanwadu arnynt drwy ddefnyddio dulliau gweithredu seiliedig ar le.[47]

1. Nodweddion ffisegol yr ardal leol, gan gynnwys ansawdd aer a dŵr.
2. Mynediad at ffactorau sy'n hybu iechyd, gan gynnwys tai o ansawdd da, cyflogaeth ddiogel, bwyd maethlon, a chyfleusterau hamdden.
3. Gwasanaethau cyhoeddus neu breifat megis addysg, trafnidiaeth, mudiadau cymunedol, a gwasanaethau iechyd a lles.

---

[43] Marmot ac eraill, 2010. Fair Society Healthy Lives (Adolygiad Marmot) https://www.instituteofhealthequity.org/resources-reports/fair-society-healthy-lives-the-marmot-review (Saesneg yn unig).

[44] Marmot ac eraill, 2020. Health Equity in England: The Marmot Review 10 Years On https://www.health.org.uk/publications/reports/the-marmot-review-10-years-on (Saesneg yn unig).

[45] Llywodraeth Cymru, 2021. Cymru sy'n Fwy Cyfartal: Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010 Canllawiau Statudol https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cymru-sy%E2%80%99n-fwy-cyfartal.pdf
*"Mae anghydraddoldeb canlyniadau yn ymwneud ag unrhyw wahaniaeth mae modd ei fesur yn y canlyniad a gaiff y rheini sydd wedi wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol a'r canlyniad a gaiff gweddill y boblogaeth"* (t.8).

[46] Macintyre, S., Maciver, S. a Sooman, A., 1993. Area, class and health: should we be focusing on places or people? *Journal of social policy*, *22*(2), tt.213-234. https://doi.org/10.1017/S0047279400019310 (Saesneg yn unig).

[47] McGowan, VJ., Buckner, S., Mead, R., McGill, E., Ronzi, S., Beyer, F. a Bambra, C., 2021. Examining the effectiveness of place-based interventions to improve public health and reduce health inequalities: an umbrella review. *BMC Public Health*, *21*(1), tt.1-17. https://doi.org/10.1186/s12889-021-11852-z (Saesneg yn unig).

4. Nodweddion diwylliannol-gymdeithasol megis hanes gwleidyddol, economaidd, ethnig neu grefyddol lle. Mae hyn hefyd yn cynnwys nodweddion eraill fel diogelwch cymunedol, integreiddio, a rhwydweithiau cymorth.

5. Ymdeimlad o le neu ganfyddiadau o'r ardal o'r tu fewn a'r tu allan.

4.36 Mae dulliau gweithredu seiliedig ar le yn amrywio o ran y ddamcaniaeth newid sy’n sail iddynt, sy'n seiliedig ar ragdybiaethau am yr hyn sy'n achosi tlodi. Gwnaeth adolygiad gan y Sefydliad Ymchwil Gweithredu Gwirfoddol ar gyfer Lankelly Chase (2017)[48] grwpio'r tybiaethau hyn yn dri chategori:

1. *Cymunedol*: Y dybiaeth bod yr achosion a’r atebion i anfantais wedi’u gwreiddio yn nodweddion yr ardal leol a’i thrigolion. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, gallai dulliau gweithredu seiliedig ar le ganolbwyntio ar ddatblygu cymunedol a meithrin gallu.

2. *Systemau*: Mae diffyg integreiddio ac ymatebolrwydd systemau a gwasanaethau lleol yn peri anfantais. Gallai dulliau gweithredu seiliedig ar le felly ganolbwyntio ar wella gwasanaethau cyhoeddus, trosglwyddo asedau cymunedol, neu helpu trigolion i gael mwy o fewnbwn i wneud penderfyniadau lleol.

3. *Strwythurol*: Mae'r hyn sy'n peri anfantais yn strwythurol ei natur ac yn deillio o newid economaidd ac amrywiadau yn y farchnad lafur a thai. I fynd i'r afael â hyn, mae dulliau gweithredu seiliedig ar le yn canolbwyntio ar adfywio economaidd a ffisegol. Gallai hyn gynnwys gweithio gyda busnesau lleol neu gymryd camau i ddod â mwy o swyddi i'r ardal leol.

[48] Taylor, M., Buckly, E. a Hennessy, C., 2017. Historical review of place based approaches. *Sefydliad Ymchwil Gweithredu Gwirfoddol:Llundain, DU*. https://lankellychase.org.uk/wp-content/uploads/2017/10/Historical-review-of-place-based-approaches.pdf (Saesneg yn unig).

***Ymgysylltu â'r gymuned***

4.37 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod ymgysylltu effeithiol â'r gymuned yn hanfodol i lwyddiant dulliau gweithredu seiliedig ar le.[49] Mae rhesymeg glir dros ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned ar lefel leol – mae lleoliad ffisegol yn cysylltu pobl ac wrth wneud hynny'n darparu sylfaen ar gyfer gweithredu ar y cyd.[50,51] Mae'r hunaniaeth ar y cyd sy'n cael ei meithrin gan ymdeimlad o le a rennir yn helpu i ysgogi asedau'r gymuned – mae aelodau'r gymuned yn cael eu cymell i gymryd rhan mewn gwaith seiliedig ar le oherwydd bod penderfyniadau am bolisi a gwasanaethau cyhoeddus yn eu hardal leol yn effeithio arnynt ar lefel bersonol.[52,53]Mae pobl leol hefyd mewn sefyllfa dda i roi adborth ar y materion dan sylw – gellir defnyddio'r profiad hwn i wella'r gwasanaethau a ddarperir drwy gydlynu neu "gydgysylltu" gwasanaethau cyhoeddus yn fwy effeithiol, lleihau dyblygu, a llywio mesurau ataliol ac ymyrraeth gynnar yn yr ardal, a fydd yn ei dro yn gwella effeithlonrwydd economaidd gwasanaethau lleol.[54,55] Yn olaf, awgrymir bod canlyniadau penderfyniadau a wneir ar lefel leol yn fwy gweladwy – gan ei gwneud yn haws i aelodau'r gymuned ddwyn arweinwyr i gyfrif.[56,57] Mae mantais ychwanegol i hyn hefyd, sef bod aelodau'r gymuned yn teimlo bod ganddynt ran yn y gwaith sydd wedi'i wneud yn eu hardal leol.

---

[49] Taylor, M., Buckly, E. a Hennessy, C., 2017. Historical review of place based approaches. *Sefydliad Ymchwil Gweithredu Gwirfoddol:Llundain, DU*. https://lankellychase.org.uk/wp-content/uploads/2017/10/Historical-review-of-place-based-approaches.pdf (Saesneg yn unig).

[50] Llywodraeth yr Alban, 2019. What Works Scotland – Place-based approaches http://whatworksscotland.ac.uk/topics/place-based-approaches/ (Saesneg yn unig).

[51] Lowndes, V. a Sullivan, H., 2008. How low can you go? Rationales and challenges for neighbourhood governance. *Public administration*, *86*(1), tt.53-74. https://doi.org/10.1111/j.1467-9299.2007.00696.x (Saesneg yn unig).

[52] Llywodraeth yr Alban, 2019. What Works Scotland – Place-based approaches http://whatworksscotland.ac.uk/topics/place-based-approaches/ (Saesneg yn unig).

[53] Lowndes, V. a Sullivan, H., 2008. How low can you go? Rationales and challenges for neighbourhood governance. *Public administration*, *86*(1), tt.53-74. https://doi.org/10.1111/j.1467-9299.2007.00696.x (Saesneg yn unig).

[54] Llywodraeth yr Alban, 2019. What Works Scotland – Place-based approaches http://whatworksscotland.ac.uk/topics/place-based-approaches/ (Saesneg yn unig).

[55] Lowndes, V. a Sullivan, H., 2008. How low can you go? Rationales and challenges for neighbourhood governance. *Public administration*, *86*(1), tt.53-74. https://doi.org/10.1111/j.1467-9299.2007.00696.x (Saesneg yn unig).

[56] Llywodraeth yr Alban, 2019. What Works Scotland – Place-based approaches http://whatworksscotland.ac.uk/topics/place-based-approaches/ (Saesneg yn unig).

[57] Lowndes, V. a Sullivan, H., 2008. How low can you go? Rationales and challenges for neighbourhood governance. *Public administration*, *86*(1), tt.53-74. https://doi.org/10.1111/j.1467-9299.2007.00696.x (Saesneg yn unig).

***Sylfaen dystiolaeth ar gyfer dulliau gweithredu seiliedig ar le***

4.38 Mae nifer o adolygiadau wedi canfod tystiolaeth i gefnogi'r defnydd o ddulliau gweithredu seiliedig ar le. Gwnaeth Crisp ac eraill (2014)[58] adolygu dulliau gweithredu seiliedig ar bobl a lleoedd o ran pum canlyniad: iechyd, addysg, cyfranogiad cymunedol, tai, a throsedd a'r amgylchedd ffisegol. Yn gyffredinol, awgrymwyd bod dulliau gweithredu seiliedig ar le yn fwy effeithiol na dulliau gweithredu seiliedig ar bobl o ran creu gwelliannau i elfennau anfaterol (yn hytrach na materol) tlodi. Awgrymodd yr adolygiad fod dulliau gweithredu seiliedig ar le sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd ffisegol, tai a throseddu yn dwyn effeithiau cadarnhaol i ganlyniadau'n ymwneud â boddhad lle, diogelwch, ac iechyd a llesiant.

4.39 Daeth adolygiad ymbarél diweddar[59] o 13 o adolygiadau systematig, gan gynnwys 52 o astudiaethau ar draws saith gwlad,[60] i'r casgliad petrus bod dulliau gweithredu seiliedig ar le sy'n canolbwyntio ar adfywio ffisegol (megis darpariaeth tai, trafnidiaeth, a mannau cyhoeddus) yn effeithiol o ran iechyd a phenderfynyddion cymdeithasol canlyniadau iechyd. Nododd 37 o astudiaethau â'r ffocws hwn ganlyniadau cadarnhaol. Mae hyn yn cyd-fynd ag adolygiad cynharach gan Matthews ac eraill (2012)[61] a ddarparodd dystiolaeth bod dulliau gweithredu seiliedig ar le sy'n canolbwyntio ar adnewyddu ffisegol yn effeithiol o ran gwella llesiant a boddhad lle. Fodd bynnag, awgrymwyd hefyd ei bod yn bosibl na fyddai dulliau gweithredu seiliedig ar le sy'n canolbwyntio ar wella'r amgylchedd ffisegol o fudd cyfartal i bawb – roedd tystiolaeth yn dangos bod canlyniadau gwell o fod yn agosach at yr ymyriad.[62]

---

[58] Crisp ac eraill, (2020). Regeneration and poverty: evidence and policy review Final Report https://www4.shu.ac.uk/research/cresr/sites/shu.ac.uk/files/jrf-regeneration-poverty-final-report.pdf (Saesneg yn unig).

[59] McGowan, V.J., Buckner, S., Mead, R., McGill, E., Ronzi, S., Beyer, F. a Bambra, C., 2021. Examining the effectiveness of place-based interventions to improve public health and reduce health inequalities: an umbrella review. *BMC Public Health*, *21*(1), tt.1-17. https://doi.org/10.1186/s12889-021-11852-z (Saesneg yn unig).

[60] UDA, Canada, Awstralia, y DU, Seland Newydd a Sweden.

[61] Matthews, P., Netto, G. a Besemer, K., 2012. 'Hard-to-Reach' or 'Easy-to-Ignore'? A rapid review of place-based policies and equality. https://dspace.stir.ac.uk/bitstream/1893/25969/1/Hard%20to%20Reach%20or%20Easy%20to%20Ignore.pdf (Saesneg yn unig).

[62] McGowan, V.J., Buckner, S., Mead, R., McGill, E., Ronzi, S., Beyer, F. a Bambra, C., 2021. Examining the effectiveness of place-based interventions to improve public health and reduce health inequalities: an umbrella review. *BMC Public Health*, *21*(1), tt.1-17. https://doi.org/10.1186/s12889-021-11852-z (Saesneg yn unig).

4.40 Gwnaeth adolygiad o fentrau ar sail ardal a gynhaliwyd gan y Ganolfan "What Works" ar gyfer Twf Economaidd Lleol[63] ddod o hyd i dystiolaeth o effeithiau cadarnhaol ar gyflogaeth a chynnyrch domestig gros rhanbarthol. Roedd yr adolygiad yn cynnwys 58 o werthusiadau o fentrau ar sail ardal a gynhaliwyd yn y DU a gwledydd eraill y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd [OECD]. O ran rhaglenni'r UE, nododd bron i hanner effeithiau cadarnhaol ar gynnyrch domestig gros, a dangosodd hanner ganlyniadau cadarnhaol o ran cyflogaeth. Ar gyfer Ardaloedd Menter, nododd ychydig dros hanner y gwerthusiadau y cafwyd effeithiau manteisiol ar gyflogaeth a chanfu hanner y cafwyd canlyniadau cadarnhaol yn ymwneud â thlodi. Yn olaf, mewn mentrau ar sail ardal eraill, cafodd mwy na hanner effeithiau cadarnhaol o ran cyflogaeth, a chafwyd canlyniadau cadarnhaol ym mhob un o'r tair astudiaeth a oedd yn ystyried diweithdra.

4.41 Mae adolygiad o fentrau ar sail ardal a roddwyd ar waith yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf[64] wedi canfod tystiolaeth bod dulliau gweithredu seiliedig ar le wedi bod yn fanteisiol ar draws ystod o allbynnau, gan gynnwys cyflogaeth, tai, sefydlu prosiectau cymunedol ar raddfa fach a mawr, a chanlyniadau sy'n gysylltiedig ag iechyd.

*4.42* Yn olaf, daeth adolygiad o weithio seiliedig ar le sy'n targedu unigolion a phlant mewn ardaloedd difreintiedig i'r casgliad bod dulliau gweithredu seiliedig ar le yn effeithiol o ran *"1) Cynnwys pobl ddifreintiedig mewn rhaglenni a gwasanaethau, 2) Adeiladu cymunedau cefnogol, a 3) Adeiladu seilwaith a chreu'r amodau ar gyfer effaith"* (t.2).[65]

---

[63] Canolfan What Works ar gyfer Twf Economaidd Lleol, 2016. Evidence Review: Area Based Initiatives: EU Structural & Cohesion Policies https://whatworksgrowth.org/policy-reviews/area-based-initiatives/evidence-review/ (Saesneg yn unig). 16-01-04-Area-based-initiatives-EU-Programmes.pdf (whatworksgrowth.org) (Saesneg yn unig)

[64] Llywodraeth Cymru, 2015. Gwerthuso proses Cymunedau yn Gyntaf: Atodiad 1: Theori Newid, ar-lein: https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150226-communities-first-process-evaluation-appendix1-en.pdf (Saesneg yn unig ond gweler adroddiadau eraill yn Gymraeg: https://llyw.cymru/gwerthuso-cymunedau-yn-gyntaf).

[65] Crew, M., 2020. The Effectiveness of Place-Based Programmes and Campaigns in Improving Outcomes for Children: A Literature Review. A National Literacy Trust Research Report. *Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol* https://files.eric.ed.gov/fulltext/ED607978.pdf (Saesneg yn unig).

***Heriau ehangach dulliau gweithredu seiliedig ar le***

4.43 Mae'r adran hon yn trafod rhai o'r heriau ehangach sy'n ymwneud â dulliau gweithredu seiliedig ar le. Mae trafodaeth helaeth ynghylch rhagdybiaethau dulliau gweithredu seiliedig ar le a'u tystiolaeth empirig greiddiol y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn, ond mae hyn wedi'i drafod yn fanwl mewn man arall.[66]

4.44 Un her gyffredinol a nodwyd gan adolygiadau o ymyriadau seiliedig ar le yw ei bod yn anodd dod i gasgliadau pendant am effeithiolrwydd cyffredinol dulliau gweithredu seiliedig ar le oherwydd materion cynhenid o ran *"priodoliad, amserlen, cymhlethdod, a ffactorau allanol"* (t.1).[67] Mae gweithio seiliedig ar le yn cwmpasu ystod eang o ddulliau ac, o ganlyniad, mae ehangder y dulliau gwerthuso, ac argaeledd ac ansawdd y dystiolaeth wedi'u hamlygu fel heriau cyffredin wrth gymharu ac wrth werthuso dulliau gweithredu seiliedig ar le. Mae hyn yn arbennig o wir am ddulliau o'r bôn i'r brig sy'n mynd i'r afael ag ystod eang o faterion lleol, ac sy'n creu anawsterau i nodi'r canlyniadau/effeithiau sydd eu hangen i werthuso eu heffeithiolrwydd.[68]

4.45 Her allweddol arall i ddulliau gweithredu seiliedig ar le yw sut y caiff lle ei ddiffinio. Beirniadaeth gyffredin o weithio seiliedig ar le yw i ba raddau y gellir cyfiawnhau targedu gofodol o ran cyrraedd y boblogaeth darged – y pryder yw y gall dulliau gweithredu seiliedig ar le eithrio unigolion sydd angen cymorth os nad ydynt yn byw o fewn y dalgylch(oedd) penodol.

4.46 Gall targedu gofodol hefyd gyflwyno heriau o ran darparu gwasanaethau – yn aml nid yw ffiniau yn cyd-fynd â ffiniau llywodraeth leol neu wasanaethau cymunedol.[69] Yn yr un modd, efallai na fydd data sydd ei angen ar gyfer monitro a gwerthuso ar gael yn uned ddaearyddol y dull gweithredu seiliedig ar le.

[66] Theodos, B., 2021. Examining the Assumptions behind Place-Based Programs. https://www.urban.org/sites/default/files/publication/104334/examining-the-assumptions-behind-place-based-programs2.pdf (Saesneg yn unig).

[67] Crew, M., 2020. The Effectiveness of Place-Based Programmes and Campaigns in Improving Outcomes for Children: A Literature Review. A National Literacy Trust Research Report. *Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol* https://files.eric.ed.gov/fulltext/ED607978.pdf (Saesneg yn unig).

[68] Llywodraeth Cymru, 2015. Gwerthuso proses Cymunedau yn Gyntaf: Atodiad 1: Theori Newid, ar-lein: https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150226-communities-first-process-evaluation-appendix1-en.pdf (Saesneg yn unig ond gweler adroddiadau eraill yn Gymraeg: https://llyw.cymru/gwerthuso-cymunedau-yn-gyntaf).

[69] Theodos, B., 2021. Examining the Assumptions behind Place-Based Programs. https://www.urban.org/sites/default/files/publication/104334/examining-the-assumptions-behind-place-based-programs2.pdf (Saesneg yn unig).

4.47 Mae dulliau gweithredu seiliedig ar le fel arfer yn cael eu targedu at gymunedau lle a buddiant difreintiedig. Mae tystiolaeth bod trigolion cymdogaethau sydd â chyfraddau uwch o amddifadedd a mwy o chwalfa gymdeithasol (e.e. mwy o drosiant ymhlith trigolion, llai o berchnogion tai, cyfrannau uwch o aelwydydd un person, lleiafrifoedd ethnig a mudwyr) yn nodi lefelau is o gydlyniant cymdeithasol a llai o ymdeimlad o gysylltiad â'u hardal.[70] Yn yr un modd, gallai nodweddion y mathau o ardaloedd a dargedir gan ddulliau gweithredu seiliedig ar le gyflwyno heriau o ran hyder, ymddiriedaeth a chymhelliant trigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu cymunedol.

*4.48* Yn olaf, mae p'un ai y dylid defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar le neu rai sy'n "ofodol ddall" i fynd i'r afael ag anfantais yn destun dadl helaeth.[71,72] Dadleuwyd nad yw dulliau gweithredu seiliedig ar le yn ystyried achosion strwythurol tlodi ac, ar eu pen eu hunain, nad ydynt yn gallu sicrhau gwelliannau hirdymor.[73] Er mwyn bod yn effeithiol, awgrymwyd y dylid ystyried dulliau gweithredu seiliedig ar le yng nghyd-destun materion rhanbarthol a chenedlaethol ehangach[74] a'u ddefnyddio ochr yn ochr â *"strategaethau buddsoddi a lleihau tlodi ehangach os ydynt am wneud cyfraniad sylweddol".*[75]

---

70 Curtis ac eraill, (2019). Individual and local area factors associated with self-reported well-being, perceived social cohesion and sense of attachment to one's community: analysis of the Understanding Society Survey https://whatworkswellbeing.org/wp-content/uploads/2020/02/120919-Social-Fragmentation-full-report.pdf (Saesneg yn unig).

71 Barca, F., McCann, P. a Rodríguez-Pose, A., 2012. The case for regional development intervention: place-based versus place-neutral approaches. *Journal of regional science*, *52*(1), tt.134-152. https://doi.org/10.1111/j.1467-9787.2011.00756.x (Saesneg yn unig).

72 Griggs ac eraill, (2008). Person- or place-based policies to tackle disadvantage? Not knowing what works https://citeseerx.ist.psu.edu/viewdoc/download?doi=10.1.1.455.7278&rep=rep1&type=pdf (Saesneg yn unig).

73 Theodos, B., 2021. Examining the Assumptions behind Place-Based Programs. https://www.urban.org/sites/default/files/publication/104334/examining-the-assumptions-behind-place-based-programs2.pdf (Saesneg yn unig).

74 Theodos, B., 2021. Examining the Assumptions behind Place-Based Programs. https://www.urban.org/sites/default/files/publication/104334/examining-the-assumptions-behind-place-based-programs2.pdf (Saesneg yn unig).

75 Llywodraeth yr Alban, 2014-2019. What Works Scotland: Place-based approaches: Resources about place-based approaches, a holistic approach that can cross policy sectors and silos, and links to key resources https://whatworksscotland.ac.uk/topics/place-based-approaches/ (Saesneg yn unig).

## 5. Canfyddiadau

5.1 Dewiswyd chwe dull gweithredu seiliedig ar le ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a darparu cymorth i gymunedau yng Nghymru fel astudiaethau achos, sef (1) Cymunedau yn Gyntaf [CynG], (2) Tasglu'r Cymoedd [TC], (3) Dechrau'n Deg [DD], (4) Skyline, (5) LEADER a (6) Cymunedau 2.0 [C2.0], ac fe gânt eu crynhoi yn yr adran hon.

*Cymunedau yn Gyntaf*

5.2 Roedd CynG yn rhaglen "mynd i'r afael â thlodi" a oedd ar waith rhwng 2001 a 2018, gan gostio £432 miliwn.[76] Ar ei uchaf, roedd cyllideb flynyddol y rhaglen tua £40 miliwn, ond roedd y cyllidebau llawer yn llai yn y blynyddoedd cynnar a'r blynyddoedd olaf.

5.3 Nod CynG oedd mynd i'r afael â'r amrywiadau daearyddol mewn cyfraddau amddifadedd a welwyd yng Nghymru drwy ganolbwyntio ar benderfynyddion cymdeithasol tlodi. Roedd y rhaglen yn cefnogi prif nodau Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru (*atal tlodi, helpu pobl i gael gwaith, a lliniaru effeithiau tlodi*).[77]

5.4 Defnyddiwyd MALIC 2001 i dargedu'r rhaglen yn ofodol at y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Yn 2002, sefydlwyd 142 o bartneriaethau adfywio cymunedol: 100 yn wardiau etholiadol mwyaf difreintiedig Cymru; 32 mewn ardaloedd is-wardiau; a deg mewn cymunedau buddiant. Dros amser, addaswyd cwmpas y rhaglen i adlewyrchu fersiynau newydd o MALIC ac, yn 2012, ad-drefnwyd yr ardaloedd a dargedwyd yn 52 o 'glystyrau' CynG a oedd yn cwmpasu ardaloedd daearyddol mwy.

5.5 I ddechrau, roedd nodau CynG yn eang ac yn canolbwyntio ar gydweithio â'r gymuned leol i wella'r ardal leol a dyfodol y trigolion. Cafodd y nodau eu mireinio'n ddiweddarach yn dilyn ailstrwythuro'r rhaglen yn 2012. Yna cynlluniwyd mentrau cymunedol i gyfateb i dri phrif faes thematig: (1) *Cymunedau llewyrchus* (e.e. buddsoddi mewn busnesau lleol a mentrau'n

[76] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017. Cymunedau yn Gyntaf: Yr Hyn a Ddysgwyd https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11141/cr-ld11141-w.pdf

[77] Llywodraeth Cymru, 2013. Datganiad Ysgrifenedig – Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2013 https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cynllun-gweithredu-ar-gyfer-trechu-tlodi-2013

canolbwyntio ar wella mynediad at gyflogaeth), (2) *Cymunedau sy'n dysgu* (e.e. gweithgareddau i wella cyrhaeddiad addysgol), a (3) *Cymunedau iach* (e.e.

ymyriadau lleihau alcohol a rhoi'r gorau i ysmygu, a gweithgareddau i annog byw'n fywiog).

*(2) Tasglu'r Cymoedd*

5.6 Roedd TC ar waith rhwng 2016 a 2021 a chanddo gylch gwaith eang o wella ffyniant cymunedau yng Nghymoedd y De. Cost y rhaglen oedd £309,000 mewn cyllid refeniw ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned, cyfathrebu, ac adnoddau, £25 miliwn mewn cyllid cyfalaf rhwng 2019 a 2020 a rhwng 2020 a 2021, a £7 miliwn mewn cyllid cyfalaf dros yr un cyfnod a fuddsoddwyd yn y gwaith o ddatblygu Parc Rhanbarthol y Cymoedd.[78]

5.7 Cyflwynwyd TC ar lefel awdurdod lleol [ALl], i ddechrau ym Mlaenau Gwent, Torfaen, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, a rhannau o Gastell-nedd Port Talbot, Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr. Ymgorfforwyd dwy ardal ychwanegol yn y rhaglen yn 2019 – Cwm Gwendraeth a Chwm Aman, ond roedd y rhain yn ychwanegiadau ar wahân ac nid oeddent wedi'u gwneud ar lefel ALl.

5.8 Nod y rhaglen oedd lleihau'r bylchau economaidd-gymdeithasol a welwyd yng Nghymoedd y De o gymharu â gweddill Cymru. I'r perwyl hwn, nododd y rhaglen dri phrif amcan: (1) *Creu mwy o gyfleoedd gwaith o safon yn lleol, a mynd i'r afael â gwaith dros dro a dim oriau* (e.e. cefnogi menter a busnes lleol drwy adnoddau fel Busnes Cymru). (2) *Gwella gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig trafnidiaeth a thai fforddiadwy* (e.e. gwella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ac adnewyddu tai gwag drwy fuddsoddi yn y Cynllun Cartrefi Gwag*). (3) Cynnal a gwneud mwy o ddefnydd o'r amgylchedd naturiol a threftadaeth ddiwylliannol leol i hybu ffyrdd iach o fyw a llesiant trigolion lleol yn ogystal ag annog ymwelwyr i'r ardal (h.y. buddsoddi ym 'Mharc Rhanbarthol y Cymoedd').*[79]

[78] Llywodraeth Cymru, 2019. Cais rhyddid gwybodaeth am wybodaeth y gyllideb wedi'i chofnodi ar gyfer Tasglu'r Cymoedd, gan gynnwys yr amlen gyllidebol gyffredinol a dadansoddiad o'r gyllideb honno fesul prosiect, sector a lleoliad https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/ATISN%2013555.pdf (Saesneg yn unig).

[79] Llywodraeth Cymru, 2021. Tasglu'r Cymoedd, 2016 – 2021: adroddiad terfynol https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/tasglu%27r-cymoedd-2016-2021-adroddiad-terfynol.pdf

*5.9* Cynlluniwyd TC hefyd i gysylltu â gweithgareddau lleol a chynyddu arfer da ar draws y cwm, i werthuso cynlluniau a oedd yn bodoli eisoes a chydgysylltu mentrau i wneud y mwyaf o botensial a buddsoddiad.

*(3) Dechrau'n Deg*

5.10 Mae DD, a gyflwynwyd gyntaf yn 2006/07, yn rhaglen sydd dal ar waith sy'n ceisio gwella cyfleoedd bywyd plant dan bedair oed sy'n byw yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Rhwng 2007 a 2018, darparodd Llywodraeth Cymru dros £600 miliwn o gyllid ar gyfer DD. Pan roddwyd y rhaglen ar waith gyntaf, roedd hyn yn cyfateb i tua £2,000 y plentyn (0-3 oed) mewn ardaloedd targed DD, gan gynyddu i £2,100 o 2009-10 ymlaen.[80]

5.11 Defnyddiodd DD ddangosyddion amddifadedd cymharol (MALIC, prydau ysgol am ddim, a theuluoedd sy'n derbyn budd-daliadau yn seiliedig ar incwm) i nodi ardaloedd a fyddai'n derbyn gwasanaethau. Mae'r rhaglen wedi'i thargedu'n ofodol at yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig o fewn awdurdodau lleol. Yn 2014, ymgorfforwyd trefniant allgymorth yn y rhaglen a olygai ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol nodi ac estyn cymorth i deuluoedd mewn angen a oedd yn byw y tu allan i ardaloedd DD, o fewn terfyn cyllideb y cytunwyd arno. Yn 2017, diweddarwyd y canllawiau, yn nodi bod plant sy'n symud allan o DD, plant y tu allan i ardaloedd DD, a chymunedau buddiant yn gymwys ar gyfer allgymorth.  Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai DD yn cael ei ehangu i ddarparu gofal plant i bob plentyn dwy oed yng Nghymru.[81]

5.12 Nod y rhaglen yw nodi angen ac ymyrryd yn gynnar er mwyn *"gwella iaith plant, eu datblygiad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol, yn ogystal â'u hiechyd corfforol"* (t.1).[82] Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, cynigir pedair prif hawl i

---

[80] Llywodraeth Cymru, 2011. Gwerthusiad o Dechrau'n Deg: Canfyddiadau o'r arolwg llinell sylfaen o deuluoedd – mapio anghenion a mesur dylanwad cynnar ymysg teuluoedd gyda babanod rhwng saith ac 20 mis oed: Adroddiad cryno https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/gwerthuso-dechraun-deg-canfyddiadau-arolwg-sylfaenol-o-deuluoedd-crynodeb.pdf

[81] Yn ei Rhaglen Lywodraethu wedi'i diweddaru, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i gefnogi ei rhaglen flaenllaw Dechrau'n Deg ac, yn unol â'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, mae wedi ehangu'r ymrwymiad hwn i ymestyn darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn raddol i gynnwys pob plentyn dwy oed, gan roi pwyslais arbennig ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.  O fis Medi, bydd rhaglen Dechrau'n Deg yn cael ei hehangu i gwmpasu hyd at 2,500 yn fwy o blant hyd at bedair oed drwy gynyddu ardaloedd targed Dechrau'n Deg ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Dyma gam cyntaf ehangu gofal plant ar gyfer pob plentyn dwy oed yng Nghymru.

[82] Llywodraeth Cymru, 2013. Gwerthusiad cenedlaethol o Dechrau'n Deg: adroddiad synthesis astudiaeth achos ardal https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/gwerthusiad-cenedlaethol-o-dechraun-deg-adroddiad-synthesis-astudiaeth-achos-ardal.pdf (Saesneg yn unig).

deuluoedd, sef: 1. gwasanaeth ymwelwyr iechyd dwys, 2. gofal plant rhan-amser o safon uchel wedi'i ariannu'n llawn ar gyfer plant rhwng dwy a thair oed, 3. cymorth rhianta, a 4. mynediad at wasanaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu.

*(4) Skyline*

5.13 Ariannwyd Skyline gan y Friends Provident Foundation a chafodd ei gynnal rhwng Gorffennaf 2018 a Mai 2019. Astudiaeth ddichonoldeb yn edrych ar reolaeth tir cymunedol at ddibenion tirlunio yng Nghymoedd y De oedd y prosiect.

5.14 Cynhaliwyd Skyline mewn tri phentref a oedd gynt yn bentrefi glofaol yng Nghymoedd y De – Caerau, Treherbert, ac Ynysowen. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a Pholisi Cenedlaethol ar Adnoddau Llywodraeth Cymru yn darparu’r cyd-destun polisi ar gyfer y gwaith hwn. Mae tystiolaeth o brosiectau sydd wedi’u rhoi ar waith yn yr Alban yn awgrymu y gall perchnogaeth tir cymunedol arwain at *“ymdeimlad cryfach o hunaniaeth; mwy o hyfywedd ariannol; lefelau gwell o weithgarwch a mynediad at wasanaethau; mwy o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant, swyddi a datblygu busnes; amgylchedd ffisegol gwell, a hygrededd gwell gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau allanol…”*, sydd, yn ei dro, yn gwella llesiant a ffyniant cymunedau (t.10).[83]

5.15 Nod astudiaeth ddichonoldeb Skyline oedd ateb pedwar cwestiwn: “*1. A yw cymunedau eisiau bod yn rheolwyr eu tirwedd? 2. A oes modelau busnes cynaliadwy a fyddai’n caniatáu i gymunedau dorri’n rhydd o ddiwylliant o ddibynnu ar grantiau? 3. A yw'n bosibl i gymunedau reoli'r dirwedd mewn ffordd sydd o fudd i natur? 4. A all y prosiectau tirwedd hyn gael eu llywodraethu'n dda?”* (t.8)[84]

5.16 Yn dilyn astudiaeth ddichonoldeb Skyline, ym mis Ebrill 2021 dechreuodd gwaith ar dri phrosiect ar y cyd â Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae’r prosiect cyntaf, “Future Forest Vision”, yn gynllun coedwig sy’n cael ei ddatblygu yn Nhreherbert gan aelodau’r gymuned a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae’r ail brosiect yn datblygu menter gymdeithasol sy’n eiddo i’r gymuned, ac mae’r

---

[83] Cwmni Buddiannau Cymunedol The Green Valleys, 2019. Skyline: Report on the feasibility study into landscape-style community land stewardship in the South Wales Valleys https://www.thegreenvalleys.org/wp-content/uploads/skyline-final.pdf (Saesneg yn unig).

[84] Cwmni Buddiannau Cymunedol The Green Valleys, 2019. Skyline: Report on the feasibility study into landscape-style community land stewardship in the South Wales Valleys https://www.thegreenvalleys.org/wp-content/uploads/skyline-final.pdf (Saesneg yn unig).

trydydd yn archwilio ffyrdd y gall gwerth cymdeithasol sy'n cael ei gyflawni gan y gymuned hwyluso'r gwaith o drosglwyddo asedau cymunedol.[85]

*(5) Rhaglen LEADER Arloesi Môn*

5.17 Mae LEADER Arloesi Môn yn rhaglen datblygu gwledig chwe blynedd a fu ar waith yn Ynys Môn rhwng 2015 a 2021. Ariannwyd y rhaglen gan yr UE (Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig), Llywodraeth Cymru, ac Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn.

5.18 Cyfanswm cyllideb y rhaglen oedd £3.3 miliwn a neilltuwyd 76% i ariannu prosiectau ar yr ynys. Ar adeg gwerthusiad canol tymor y rhaglen yn 2019, roedd Arloesi Môn wedi ariannu 54 o brosiectau (yn amrywio o £1,500 i £33,500) a chyfartaledd y cyllid a ddyrannwyd i bob prosiect oedd oddeutu £11,500.

5.19 Nod Arloesi Môn oedd datblygu prosiectau peilot arloesol a allai fod o fudd i economi Ynys Môn. Roedd cwmpas y rhaglen felly yn eang iawn ac yn cynnwys treialu prosiectau arloesol gyda'r nod o ddatblygu a rhoi prosiectau llwyddiannus ar waith yn y dyfodol neu ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o agweddau llai llwyddiannus prosiectau i lywio prosiectau yn y dyfodol.

5.20 Roedd gan y rhaglen 29 o amcanion – ceir manylion y rhain yn Atodiad 1 y gwerthusiad canol tymor. [86] Dewiswyd y pedair thema ganlynol o'r pum thema sydd ar gael o dan y cynllun LEADER cenedlaethol ac maent yn crynhoi'r prif nodau yr oedd y rhaglen yn ceisio'u gwireddu yn Ynys Môn erbyn 2020: "*1. Posibilrwydd economaidd newydd gyda mwy o gyfleoedd cyflogaeth gwell ar gyfer ei phobl,2. Mae pobl Ynys Môn wedi'u cysylltu'n well yn ffisegol, yn ddigidol ac yn gymdeithasol ac yn gallu cael mynediad at y mwynderau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt.3. Mae pobl Ynys Môn yn gwneud mwy o asedau diwylliannol, hanesyddol, hamddenol a naturiol yr ardal er mwyn gwella profiad ymwelwyr, cynyddu eu niferoedd a'u gwariant, a gwella sgiliau a chyflogaeth leol mewn twristiaeth.4. Bydd Ynys Môn a Gwynedd wedi sefydlu TRI gweithgaredd cydweithredol, rhyngdiriaethol ac UN prosiect cydweithredol trawsgenedlaethol sydd, trwy arloesedd, rhwydweithio a chyfnewid gwybodaeth, yn cyfrannu at gwrdd ag amcanion themâu a blaenoriaethau cysylltiedig y Strategaeth"* (t.6).

---

[85] Ellis., 2021. Skyline – the next steps https://www.thegreenvalleys.org/skyline-the-next-steps/ (Saesneg yn unig).

[86] Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd (2019). Gwerthusiad Canol Tymor Rhaglen LEADER yn Ynys Môn: Arloesi Môn https://businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/sites/walesruralnetwork/files/Ynys%20Mon%20LEADER%20mid-term%20-%20final%20-%20Cymraeg.pdf

5.21 Roedd rhai enghreifftiau o weithgareddau yn cynnwys prosiect cynhwysiant digidol a ddarparodd hyfforddiant un-i-un ar sut i ddefnyddio gwasanaethau digidol i oedolion hŷn yn eu cartrefi eu hunain. Ceisiodd prosiectau eraill ddenu

5.22 twristiaeth trwy wella cysylltiadau trafnidiaeth a chynyddu ymwybyddiaeth o'r amgylchedd adeiledig a naturiol lleol.

*(6) Cymunedau 2.0*

5.23 Rhaglen cynhwysiant digidol oedd C2.0 a oedd ar waith rhwng mis Ebrill 2009 a mis Mawrth 2015 ac a ariannwyd gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Roedd cyllid ar gyfer y prosiect ychydig yn llai nag £20 miliwn, a darparwyd £8.9 miliwn o hwn gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

5.24 Ar y dechrau, mabwysiadodd C2.0 ddull wedi'i dargedu'n ofodol, gan ganolbwyntio ar y 30% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yn ôl MALIC (ardaloedd CynG blaenorol). Ar ddechrau ail gam y rhaglen ym mis Ebrill 2012, cafodd y ddarpariaeth ei hymestyn i gynnwys Cymru gyfan o fis Ionawr 2014. Ymhlith newidiadau eraill roedd canolbwyntio fwy ar weithio gyda buddiolwyr unigol, yn enwedig y rheini o'r pedwar grŵp targed – pobl hŷn, unigolion ag anableddau, y rheini sy'n byw mewn tai cymdeithasol, a phobl ddi-waith.

*5.25* Roedd y cynllun busnes yn nodi'r amcanion canlynol ar gyfer y rhaglen: *"drwy grwpiau cymunedol, sefydliadau'r sector gwirfoddol a mentrau, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, ymgysylltu pobl â thechnolegau drwy chwalu rhwystrau, a'u cefnogi i fanteisio ar dechnolegau er mwyn cael canlyniadau economaidd"* (t.9).[87]

5.26 Roedd nodau'r rhaglen yn cynnwys hwyluso cynhwysiant digidol ymhlith buddiolwyr unigol a darparu hyfforddiant a chymorth i grwpiau cymunedol a sefydliadau'r sector gwirfoddol i wella mynediad ac ymgysylltiad eu haelodau â

---

[87] Llywodraeth Cymru, 2011. An Evaluation of Communities: Two Point Zero – Initial Process and Scoping Report https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/110725evaluationcommunitiestwopointzero.pdf (Saesneg yn unig). Adroddiad terfynol yn Gymraeg: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/150728-evaluation-communities-20-final-revised-cy.pdf

thechnolegau. Roedd C2.0 hefyd yn anelu at hyfforddi sefydliadau cymunedol i fanteisio ar dechnolegau er mwyn cael budd ariannol iddynt.

## 6. Ymgysylltu â'r gymuned a darparu cymorth i gymunedau

*(1) Cymunedau yn Gyntaf*

6.1 Gellir disgrifio CynG fel rhaglen eang a arweinir gan y gymuned. Roedd y rhaglen yn ymgorffori ymgysylltiad cymunedol wrth gynllunio, darparu a monitro'r rhaglen. I gyflawni hyn, mabwysiadwyd strwythur partneriaeth amlasiantaeth a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned leol, a'r sectorau statudol, preifat a gwirfoddol. Bu aelodau'r gymuned yn ymwneud â nodi anghenion a chynllunio gweithgareddau i fynd i'r afael â materion lleol. Nod hyn oedd grymuso'r gymuned i gydweithio â darparwyr gwasanaethau a sicrhau bod adnoddau a gweithgareddau darparwyr gwasanaethau prif ffrwd yn "plygu" i'w hanghenion.[88]

6.2 O ran llywodraethu a darparu CynG, yng nghyfnod cynnar y rhaglen roedd dros 140 o bartneriaethau lleol yn cael eu rheoli gan amrywiaeth o awdurdodau lleol ac asiantaethau trydydd sector, gyda thimau bach o staff ar gyfer pob partneriaeth yn cael eu harwain gan gydlynydd CyG. Yn dilyn ad-drefnu 2013, roedd y 52 o glystyrau CynG yn cael eu rheoli gan 19 o Gyrff Cyflawni Arweiniol ac roedd pob clwstwr yn cael ei reoli gan reolwr clwstwr. Roedd cydlynwyr/rheolwyr clwstwr a'u timau cefnogi yn gyfrifol am weithio gyda chymunedau lleol, yn sicrhau bod modelau effeithiol o ymgysylltiad cymunedol yn cael eu defnyddio, gan gynnwys targedu grwpiau 'anodd eu cyrraedd'.

6.3 Datblygodd clystyrau Gynlluniau Cynnwys y Gymuned i nodi camau y gellid eu cymryd i sicrhau bod aelodau'r gymuned yn cyfrannu at y gwaith o gynllunio, darparu, monitro a goruchwylio gweithgareddau'r rhaglen.[89]

*(2) Tasglu'r Cymoedd*

6.4 Fel CynG, roedd TC yn rhaglen eang, wedi'i harwain gan y gymuned ac yn canolbwyntio ar le. Trefnwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu gan Lywodraeth Cymru a ddefnyddiwyd i lywio camau gweithredu'r rhaglen.[90] Roedd TC hefyd yn canolbwyntio'n bennaf ar "blygu rhaglenni", a oedd yn golygu nodi prosiectau

[88] Adamson, D. a Bromiley, R., 2008. Community empowerment in practice. *Lessons from Communities First*. https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/2157-community-wales-empowerment.pdf (Saesneg yn unig).

[89] Llywodraeth Cymru, 2015. Cymunedau yn Gyntaf: gwerthusiad o'r broses https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150226-communities-first-process-evaluation-cy.pdf

[90] Ymchwil Arad, 2017. Trafod y Cymoedd: Rhaglen Ymgysylltu. Adroddiad Ymchwil Arad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-07/trafod-y-cymoedd-rhaglen-ymgysylltu-adroddiad-terfynol.pdf

6.5 llwyddiannus oedd eisoes ar waith yn yr ardal ac ehangu ac ailadrodd y gwaith hwnnw ar draws y Cymoedd gyda'r nod o gael yr effaith fwyaf o fewn cyfyngiadau amser y rhaglen.[91]

6.6 Roedd gweithgarwch ymgysylltu â’r gymuned yn cynnwys digwyddiadau cyhoeddus (lle gallai pobl leol dynnu sylw’r tasglu at unrhyw faterion), cyfarfodydd â thema (lle trafodwyd pynciau yn deillio o’r digwyddiadau cyhoeddus yn fanylach), grwpiau ffocws yn gweithio gyda grwpiau diddordeb penodol (gan gynnwys y rheini ag anableddau, plant a phobl ifanc, rhieni sengl a phobl hŷn), a sesiynau ymgysylltu â staff Llywodraeth Cymru ar draws pedair swyddfa, gan gynnwys tair yn y Cymoedd (a oedd yn cynnwys trafodaethau grŵp a fforwm ar-lein).[92]

6.7 Hefyd lansiodd Llywodraeth Cymru ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â chymunedau’r Cymoedd, a oedd yn cynnwys cyfrifon Twitter a Facebook “Trafod y Cymoedd”.

6.8 Cynhaliodd Ymchwil Arad waith ymgysylltu pellach â'r gymuned. Roedd hwn yn cynnwys grwpiau ffocws ac arolwg ar-lein gyda thrigolion a busnesau o'r Cymoedd.

6.9 Roedd trefniadau llywodraethu a chyflawni’r rhaglen yn cynnwys y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De, a oedd yn gyfrifol am reoli'r rhaglen yn gyffredinol, a sefydlwyd gweithgorau ar gyfer pob un o’r themâu blaenoriaeth a ddatblygwyd o’r gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned. Cefnogwyd TC gan fwrdd rhaglen a oedd yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru ac arbenigwyr thema (tai, addysg, sgiliau, a thrafnidiaeth) ac roedd yn gyfrifol am gyflawni’r rhaglen.[93] Drwy gydol y rhaglen, roedd rhanddeiliaid cymunedol yn cyfranogi'n barhaus i addysgu a chyd-ddatblygu gweithredoedd a pholisïau TC.

---

[91] Llywodraeth Cymru, 2021. Tasglu’r Cymoedd, 2016 – 2021: adroddiad terfynol https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/tasglu%27r-cymoedd-2016-2021-adroddiad-terfynol.pdf

[92] Ymchwil Arad, 2017. Trafod y Cymoedd: Rhaglen Ymgysylltu. Adroddiad Ymchwil Arad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-07/trafod-y-cymoedd-rhaglen-ymgysylltu-adroddiad-terfynol.pdf

[93] Llywodraeth Cymru, 2021. Cyfweliadau Rhanddeiliaid Tasglu'r Cymoedd https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2021-03/rhaglen-tasglur-cymoedd-cyfweliadau-ansoddol-gyda-rhanddeiliaid.pdf

*(3) Dechrau'n Deg*

6.10 Gellir nodi bod DD yn rhaglen o'r brig i'r bôn ac sy'n canolbwyntio ar bobl – nid yw ymyriadau'n cael eu llunio gan aelodau'r gymuned ond yn hytrach maent yn cael eu pennu ymlaen llaw gan lywodraeth ganolog yn seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, gyda chanlyniadau ac effeithiau penodol mewn golwg. Mae ffocws yr ymyriad ar bobl mewn lleoedd diffiniedig yn hytrach na dyrannu adnoddau i newid nodweddion ardal benodol.

6.11 Caiff DD ei gyflawni gan awdurdodau lleol sy'n gweithio ochr yn ochr â byrddau iechyd. Mae cydlynydd DD yn goruchwylio timau lleol sy'n cynnwys, er enghraifft, weithwyr iechyd, therapyddion lleferydd ac iaith, gweithwyr gofal plant, a gweithwyr cymorth i deuluoedd.

6.12 Mae DD yn seiliedig ar gyffredinoliaeth gynyddol, sy'n golygu bod mynediad cyffredinol i deuluoedd yn nalgylchoedd DD i raglen ymyriadau DD, ond mae dwyster y cymorth a gaiff ei ddarparu yn cael ei fesur gan lefel angen y teuluoedd a aseswyd.

6.13 Caiff gofynion y gefnogaeth eu hasesu gan ymwelwyr iechyd DD gan ddefnyddio Adnodd Asesu Gwydnwch Teulu Ymweliadau Iechyd Cymru Gyfan [FRAIT].[94] Defnyddir hwn i nodi a ddylid cynnig cymorth ymwelydd iechyd "cyffredinol", "estynedig" neu "ddwys" i deuluoedd. Cynigir cymorth pwrpasol sy'n ystyried anghenion amrywiol pob teulu, gan gynnwys datblygu arferion gorau ar gyfer ymgysylltu'n effeithiol a meithrin ymddiriedaeth.

6.14 Mae DD yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a mesurau ataliol er mwyn gwella canlyniadau iechyd a chymdeithasol plant yn ddiweddarach yn eu bywydau. Er mwyn ymgysylltu teuluoedd â'r rhaglen, mae DD yn cael gwybod am ferched beichiog cymwys yn eu dalgylch a threfnir ymweliad cychwynnol â'r cartref i asesu anghenion y teuluoedd a rhoi gwybod iddynt am y gwasanaethau a gynigir.

*(4) Skyline*

6.15 Gellir disgrifio Skyline fel dull cul, o'r bôn i'r brig, sy'n canolbwyntio ar le – roedd gweithgareddau'n ymwneud â pherchnogaeth tir cymunedol ond yn cael eu datblygu ar y cyd drwy ymgysylltu â chymunedau lleol.

---

[94] Canllawiau ar gyfer Offeryn ac Adnodd Asesu Gwydnwch Teulu [FRAIT] http://www.primecentre.wales/resources/FRAIT%20Guidance.pdf (Saesneg yn unig).

6.16 Roedd partneriaethau cymunedol yn cynnwys trigolion, hwyluswyr oedd yn artistiaid, ac arbenigwyr technegol – a oedd yn cynnwys unigolion ag arbenigedd mewn rheoli coedwigoedd, busnes, a chyfraith tir.

6.17 Dechreuodd Skyline gyda chyfarfod cwmpas prosiect gyda sefydliad angori o bob cymuned. Roedd gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned yn cael eu llywio gan *"gyfarwyddyd i adfywio cymunedau"* McIntosh (t.37)[95]. Mae'r broses hon yn cynnwys tri cham, sef *"cofio'r hyn sydd wedi ei ddatgymalu; gweledigaeth newydd o sut y gall y dyfodol fod; ac, yn olaf, hawlio o'r newydd yr hyn sydd ei angen i'w wireddu"* (t.37).[96]

6.18 Roedd cyfarfodydd y cymunedau'n cynnwys mapio perchnogaeth tir bosibl, trafod modelau busnes prosiectau perchnogaeth tir cymunedol eraill, dod o hyd i brosiectau posibl ar gyfer pob cymuned, ymweliadau timau â phrosiect coedwig sefydledig a reolir gan y gymuned yn yr Alban, a gosod a chreu ymwybyddiaeth o gynllun hirdymor ar gyfer rheolaeth gymunedol.

*(5) Rhaglen LEADER Arloesi Môn*

6.19 Mabwysiadodd rhaglen LEADER Arloesi Môn ddull eang, o'r bôn i'r brig, sy'n canolbwyntio ar le.

6.20 Cafodd y rhaglen ei rheoli gan Grŵp Gweithredu Lleol a oedd yn cynnwys 22 o bobl ag arbenigedd yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol a gafodd eu recriwtio drwy broses ddewis agored. Roedd y Grwpiau Gweithredu Lleol yn gyfrifol am weithredu Strategaethau Datblygu Lleol a luniwyd ar y cyd ag aelodau o'r gymuned leol. Mae hyn yn cynnwys monitro a gwerthuso prosiectau a nodi'r gweithdrefnau y mae angen eu dilyn i sicrhau bod gweithgareddau'n cyd-fynd â nodau'r rhaglen. Mabwysiadodd Menter Môn rôl y "Corff Arweiniol" ac roedd yn gyfrifol am y gweithrediadau gweinyddol ac ariannol ar ran y Grŵp Gweithredu Lleol.

[95] McIntosh, A. a Jeanrenaud, J.P., 2008. *Rekindling Community: Connecting People, Environment and Spirituality*. UIT Cambridge Limited.

[96] Cwmni Buddiannau Cymunedol The Green Valleys, 2019. Skyline: Report on the feasibility study into landscape-style community land stewardship in the South Wales Valleys https://www.thegreenvalleys.org/wp-content/uploads/skyline-final.pdf (Saesneg yn unig).

6.21 Disgrifir dull LEADER fel “menter datblygu lleol a arweinir gan y gymuned”. Yr enw ar elfen ymgysylltu â'r gymuned y rhaglen yw “animeiddio”, sy’n cyfeirio at feithrin gallu yn y gymuned leol i rymuso pobl leol a sefydliadau i weithio ar y cyd i fynd i’r afael â heriau yn y gymuned drwy hwyluso rhwydweithio, cydweithredu, a darparu’r adnoddau sydd eu hangen i gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu cymunedol. Mae nodau ehangach dulliau LEADER yn cynnwys gwell llywodraethu lleol, cyfalaf cymdeithasol, a chanlyniadau (gan gynnwys prosiectau cymunedol mwy arloesol).

6.22 Y cam cyntaf i gyfranogiad cymunedol y mae canllawiau LEADER yn ei nodi yw ffurfio grŵp bach o bobl leol sy'n gallu rhoi cyngor ar yr heriau a’r cyfleoedd yn yr ardal leol. Mae hyn hefyd yn denu sylw pobl leol a allai gefnogi'r Strategaethau Datblygu Lleol neu ddod yn aelod o'r Grŵp Gweithredu Lleol.

*6.23* Mae datblygu’r Strategaethau Datblygu Lleol yn cynnwys y camau canlynol: *“casglu gwybodaeth, dadansoddi cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau [SWOT], blaenoriaethu, gosod amcanion a'r rhesymeg ymyrraeth sylfaenol, cynllunio darpariaeth, sicrhau cefnogaeth, a chytuno ar y cyflwyniad terfynol[97]”* (t.7).

*(6) Cymunedau 2.0*

6.24 Gellir disgrifio C2.0 fel rhaglen gul o'r brig i'r bôn – mae amcan y rhaglen wedi'i ragnodi yn hytrach na'i ddatblygu trwy ymgysylltu ag aelodau'r gymuned. Gellir hefyd ystyried bod gan y rhaglen ddull sy’n canolbwyntio ar bobl gan ei bod yn canolbwyntio’n bennaf ar gynnig cymorth i sefydliadau a phedwar grŵp targed yn y gymuned sy’n wynebu mwy o risg o allgáu digidol, sef pobl hŷn, unigolion ag anableddau, y rheini sy’n byw mewn tai cymdeithasol, a phobl ddi-waith.

6.25 Roedd y staff a oedd yn gyfrifol am gyflawni C2.0 yn cynnwys “broceriaid” a’u rôl oedd ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol i nodi anghenion sefydliadau a mentrau cymdeithasol yn y gymuned er mwyn pennu’r ffordd orau o gyflawni mentrau digidol (e.e. dylunio gwefannau, cymorth ariannol neu dechnegol). Roedd cymorth technegol hefyd yn cael ei ddarparu gan “yrwyr cylched”. Roedd gweithwyr allgymorth yn defnyddio technegau datblygu cymunedol i ymgysylltu pobl â TGCh, ac yn olaf roedd staff yn gyfrifol am reoli prosiectau a gweinyddu.

---


[97] Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop, 2016. LEADER Local Development Strategies (LDS): Guidance on design and implementation https://enrd.ec.europa.eu/sites/default/files/enrd-guidance_lds.pdf (Saesneg yn unig).

# 7. Themâu rhwystrau a hwyluswyr i ymgysylltu â'r gymuned a darparu cymorth i gymunedau

7.1 Roedd pum prif thema ac 11 is-thema yn codi o ddadansoddiad thematig gwerthusiadau'r rhaglenni. Mae'r themâu'n ymwneud â rhwystrau a hwyluswyr cyffredin i ymgysylltu â'r gymuned a darparu cymorth i gymunedau ar draws chwe astudiaeth achos y dulliau gweithredu seiliedig ar le. Y prif themâu yw:


1. Cynhwysiant cymunedol
2. Meithrin gallu
3. Asedau cymunedol a nodweddion lleol
4. Cyfleu nodau a chanlyniadau disgwyliedig
5. Cydweithio

Dangosir y prif themâu ynghyd ag is-themâu yn **Ffigur 1.**




**Ffigur 1.** Map thematig o themâu rhwystrau a hwyluswyr i ymgysylltu â'r gymuned a darparu cymorth i gymunedau ar draws dulliau gweithredu seiliedig ar le.

## 8. Prif thema 1: Cynhwysiant cymunedol




8.1 Mae prif thema 1, 'Cynhwysiant cymunedol', yn ymwneud â'r mesurau a gymerir i sicrhau y ceir cynrychiolaeth gynhwysol wrth ymgysylltu â chymunedau.

8.2 Mae dulliau gweithredu seiliedig ar le fel arfer yn cael eu targedu at gymunedau lle a chymunedau buddiant ymylol. Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau a wneir er budd y gymuned gyfan, mae'n bwysig ystyried anghenion gwahanol grwpiau yn y cymunedau, yn enwedig grwpiau a allai wynebu rhwystrau ychwanegol i gymryd rhan.

**Is-thema 1: Ymgysylltu â chymunedau buddiant nad ydynt yn cael eu clywed yn aml**

8.3 Mae'r is-thema hon yn ymwneud â rhwystrau a hwyluswyr sy'n ymwneud ag ymgysylltu â chymunedau buddiant "nad ydynt yn cael eu clywed yn aml", y gellir eu diffinio fel grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i gyfranogiad cyhoeddus, gan gynnwys pobl Dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl sy'n profi rhwystrau iaith, pobl ag anableddau, gofalwyr, pobl LHDTC+, a phobl ddigartref.

8.4 Nodwyd, ar draws gwerthusiadau CynG, TC, DD, LEADER, a C2.0, ei bod yn bwysig sicrhau bod rhaglenni'n ymgysylltu'n effeithiol ag aelodau o'r gymuned nad ydynt yn cael eu clywed yn aml. Nododd astudiaeth ddichonoldeb Skyline hefyd bwysigrwydd datblygu strategaethau i ymgysylltu â *"chroestoriad eang iawn o'r gymuned"* i sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu derbyn a'u cefnogi'n gyffredinol gan y gymuned.[98]

[98] Cwmni Buddiannau Cymunedol The Green Valleys, 2019. Skyline: Report on the feasibility study into landscape-style community land stewardship in the South Wales Valleys https://www.thegreenvalleys.org/wp-content/uploads/skyline-final.pdf (Saesneg yn unig).

8.5 Gwnaeth gwerthusiadau'r rhaglenni nodi bod heriau'n bodoli wrth ymgysylltu â chymunedau buddiant nad ydynt yn cael eu clywed yn aml. Mewn arolwg gyda thimau clwstwr CynG, dim ond 21% oedd yn credu eu bod yn ymgysylltu'n effeithiol â grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml.[99] O'r pedwar grŵp targed a amlinellwyd gan C2.0,[100] canfyddiad allweddol o'r gwerthusiadau oedd bod y rhaglen wedi cael anawsterau ymgysylltu â phobl anabl a phobl sy'n gaeth i'r tŷ gyda mentrau cynhwysiant digidol. Yn olaf, nododd rhai rhanddeiliaid TC fod diffyg cynrychiolaeth gymunedol ac amrywiaeth ar weithgorau, ond aethpwyd i'r afael â hyn drwy sesiynau wedi'u targedu.[101]

8.6 Nododd gwerthusiadau CynG a C2.0 fod prosesau monitro ac adrodd yn cyflwyno rhwystrau i ymgysylltu â grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml[102,103] gan nodi y gallai'r ymdrech i gyflawni targedau fod wedi atal staff rhag cyrraedd y grwpiau sydd wedi ymddieithrio fwyaf ac sydd fwyaf agored i niwed. Er enghraifft, nododd gwerthusiad CynG y gallai timau cyflawni fod wedi cael eu cymell i dargedu aelodau o'r gymuned sy'n haws eu cyrraedd er mwyn cael statws gwyrdd ar ddangosfwrdd sgôr Coch, Oren, Gwyrdd. [104]

Gwnaeth gwerthusiadau drafod mesurau a gymerwyd i ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol ac sydd wedi ymddieithrio (CynG, DD, LEADER). Nododd canllawiau LEADER[105] fod yn rhaid i ymgysylltu â'r gymuned leol fynd y tu hwnt i dynnu eu sylw at gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu cymunedol.

---

99 Llywodraeth Cymru, 2015. Cymunedau yn Gyntaf: gwerthusiad o'r broses https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150226-communities-first-process-evaluation-cy.pdf

100 Llywodraeth Cymru, 2015. Gwerthusiad o Cymunedau 2.0: Adroddiad Gwerthuso Terfynol – Diwygiedig* https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/150728-evaluation-communities-20-final-revised-cy.pdf

101 Llywodraeth Cymru, 2021. Tasglu'r Cymoedd: Cyfweliadau Rhanddeiliaid https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2021-03/rhaglen-tasglur-cymoedd-cyfweliadau-ansoddol-gyda-rhanddeiliaid.pdf

102 Llywodraeth Cymru, 2021. Cymunedau yn Gyntaf: gwerthusiad o'r broses https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150226-communities-first-process-evaluation-cy.pdf

103 Llywodraeth Cymru, 2015. Gwerthusiad o Cymunedau 2.0: Adroddiad Gwerthuso Terfynol – Diwygiedig* https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/150728-evaluation-communities-20-final-revised-cy.pdf

104 Llywodraeth Cymru, 2015. Cymunedau yn Gyntaf: gwerthusiad o'r broses https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150226-communities-first-process-evaluation-cy.pdf

105 Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop, 2016. LEADER Local Development Strategies (LDS): Guidance on design and implementation https://enrd.ec.europa.eu/sites/default/files/enrd-guidance_lds.pdf (Saesneg yn unig).

8.7 Nododd gwerthusiad o CynG[106] y dylai mesurau a gymerwyd i ymgysylltu â grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml fod wedi'u nodi yn y cynlluniau cyflawni a Chynlluniau Cynnwys y Gymuned. Nododd y clystyrau mwyaf llwyddiannus dechnegau arfer gorau, a oedd yn cynnwys cynnal presenoldeb cryf yn y gymuned, dulliau wedi'u targedu'n well megis curo drysau a digwyddiadau cymunedol, a defnyddio sefydliadau partner ac ysgolion lleol. Yn unol â hyn, nododd arolwg o 45 o reolwyr clwstwr a chynrychiolwyr Cyrff Cyflawni Arweiniol mai allgymorth, sesiynau blasu, cyfryngau cymdeithasol, a digwyddiadau cymunedol oedd y dulliau mwyaf effeithiol o ymgysylltu â chymunedau buddiant nad ydynt yn cael eu clywed yn aml.[107] Nododd gwerthusiad C2.0 y cymerwyd camau i gyrraedd y grŵp targed anoddaf, gan gynnwys prosiectau gyda Gofal a Thrwsio Cymru ac Age Cymru.[108]

8.8 Nododd gwerthusiadau ddulliau o hwyluso cynrychiolaeth gynhwysol, er enghraifft awgrymodd rhanddeiliad TC y dylid defnyddio rheithgor dinasyddion.[109] Mae'r broses hon yn cynnwys dewis grŵp cynrychioliadol ar hap o'r ardal darged, datblygu cwestiwn neu fater i'r grŵp ei drafod, darparu gwybodaeth, a chynnull grŵp arbenigol i'r rheithgor ei holi am y pwnc dan sylw. [110]

8.9 Nodwyd anghenion ieithoedd heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg fel rhwystrau i ymgysylltu â CynG[111] a DD.[112] Roedd gwerthusiad o CynG yn cydnabod bod darparu iaith ychwanegol yn ystyriaeth bwysig ar gyfer clystyrau sy'n cynnwys

---

[106] Llywodraeth Cymru, 2015. Cymunedau yn Gyntaf: gwerthusiad o'r broses https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150226-communities-first-process-evaluation-cy.pdf

[107] Llywodraeth Cymru, 2015. Cymunedau yn Gyntaf: gwerthusiad o'r broses https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150226-communities-first-process-evaluation-cy.pdf

[108] Llywodraeth Cymru, 2015. Gwerthusiad o Cymunedau 2.0: Adroddiad Gwerthuso Terfynol – Diwygiedig* https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/150728-evaluation-communities-20-final-revised-cy.pdf

[109] Llywodraeth Cymru, 2021. Tasglu'r Cymoedd: Cyfweliadau Rhanddeiliaid https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2021-03/rhaglen-tasglur-cymoedd-cyfweliadau-ansoddol-gyda-rhanddeiliaid.pdf

[110] Adnoddau Involve, ar-lein https://www.involve.org.uk/resources/methods/citizens-jury (Saesneg yn unig).

[111] Llywodraeth Cymru, 2015. Cymunedau yn Gyntaf: gwerthusiad o'r broses https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150226-communities-first-process-evaluation-cy.pdf

[112] Llywodraeth Cymru, 2018. Ymchwil ansoddol gyda theuluoedd Dechrau'n Deg: Cam 3 https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/ymchwil-ansoddol-gyda-theuluoedd-dechraun-deg-cam-3.pdf

cyfrannau uchel o gymunedau Pwylaidd, Portiwgeaidd neu Asiaidd.[113] Nododd gwerthusiadau CynG a DD fesurau a gymerwyd i hwyluso ymgysylltu â grwpiau sy'n wynebu rhwystrau iaith. Er enghraifft, disgrifiodd astudiaeth achos DD sut roedd teulu o ffoaduriaid o Irac heb lawer o sgiliau iaith Saesneg yn cael eu cefnogi drwy eu cyfeirio at gyrsiau Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill a gwasanaethau hanfodol eraill.[114]

**Is-thema 2: Strategaethau marchnata**

8.10 Mae'r is-thema hon yn ymwneud â strategaethau marchnata i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r rhaglen.

8.11 Yng ngwerthusiad canol tymor LEADER,[115] nododd rhai a holwyd fod pryderon ynghylch diffyg ymwybyddiaeth o'r Grŵp Gweithredu Lleol a'r rhaglen yn gyffredinol. Codwyd hyn hefyd mewn cyfweliadau â rhanddeiliaid DD,[116] a nododd rwystrau i ymgysylltu yn ymwneud â diffyg ymwybyddiaeth yn y gymuned o'r cymorth y mae'r rhaglen yn ei gynnig neu'r canfyddiad nad oedd y gwasanaethau a gynigir yn berthnasol. Yn ogystal â hyn, nododd adroddiad gwerthuso DD arall fod heriau'n bodoli oherwydd y gred bod stigma ynghlwm wrth ymgysylltu â'r rhaglen.[117] Yn yr un modd, nododd gwerthusiad o C2.0[118] mai'r prif rwystr i ddefnyddio'r rhyngrwyd oedd diffyg ymwybyddiaeth o'i manteision.

8.12 Er mwyn hwyluso ymgysylltu, argymhellodd gwerthusiadau o DD a CynG y dylai rhaglenni ddefnyddio strategaethau marchnata eang, ac roedd gwerthusiad

[113] Llywodraeth Cymru, 2015. Cymunedau yn Gyntaf: gwerthusiad o'r broses https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150226-communities-first-process-evaluation-cy.pdf

[114] Llywodraeth Cymru, 2018. Ymchwil ansoddol gyda theuluoedd Dechrau'n Deg: Cam 3 https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/ymchwil-ansoddol-gyda-theuluoedd-dechraun-deg-cam-3.pdf

[115] Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd (2019). Gwerthusiad Canol Tymor Rhaglen LEADER yn Ynys Môn: Arloesi Môn https://businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/sites/walesruralnetwork/files/Ynys%20Mon%20LEADER%20mid-term%20-%20final%20-%20Cymraeg.pdf

[116] Llywodraeth Cymru, 2018. Ymchwil ansoddol gyda theuluoedd Dechrau'n Deg: Cam 3 https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/ymchwil-ansoddol-gyda-theuluoedd-dechraun-deg-cam-3.pdf

[117] Llywodraeth Cymru, 2013. Gwerthusiad cenedlaethol o Dechrau'n Deg: Adroddiad synthesis astudiaeth achos ardal https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/national-evaluation-of-flying-start-area-case-study-synthesis-report.pdf (Saesneg yn unig).

[118] Llywodraeth Cymru, 2015. Gwerthusiad o Cymunedau 2.0: Adroddiad Gwerthuso Terfynol – Diwygiedig* https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/150728-evaluation-communities-20-final-revised-cy.pdf

cenedlaethol o DD yn cynghori yn erbyn anelu marchnata at grwpiau targed â nodweddion demograffig penodol.[119] Nododd gwerthusiadau y dylid rhoi cyhoeddusrwydd eang i weithgareddau a llwyddiannau rhaglenni ym mhob maes targed (e.e. LEADER, CynG, TC).

8.13 Cafwyd enghreifftiau o ymgyrchoedd effeithiol ar y cyfryngau cymdeithasol a lwyddodd i godi ymwybyddiaeth o raglenni. Er enghraifft, nododd rhanddeiliaid C2.0[120] a TC[121] fod presenoldeb da ar y cyfryngau cymdeithasol yn ffordd effeithiol o hwyluso ymgysylltu.

8.14 Adroddodd cyfweliadau â rhanddeiliaid C2.0 fod y rhaglen wedi bod yn llwyddiannus wrth godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o C2.0, ond cafwyd rhai rhwystrau i hyrwyddo targedu gofodol cychwynnol y rhaglen – nodwyd y byddai rhaglen Cymru gyfan ac ymgyrch genedlaethol yn y cyfryngau yn fwy llwyddiannus i gynyddu ymgysylltiad cymunedol.[122]

8.15 Amlygwyd hefyd fod ystyriaethau ynghylch yr iaith a ddefnyddiwyd i hyrwyddo rhaglenni yn bwysig. Er enghraifft, roedd rhai rhanddeiliaid TC yn meddwl bod y term “tasglu” yn nawddoglyd[123] ac amlygodd gwerthusiad o C2.0 bwysigrwydd defnyddio iaith hygyrch, a nododd rhai o'r bobl a holwyd nad oedd yn glir beth oedd ystyr rhai o'r termau a ddefnyddiwyd i hysbysebu'r rhaglen.[124]

**Is-thema 3: Darpariaeth yn Gymraeg**

8.16 Mae’r is-thema hon yn ymwneud â’r mesurau a gymerwyd i sicrhau bod darpariaeth yn Gymraeg wedi’i gwreiddio yn y rhaglen.

---

[119] Llywodraeth Cymru, 2013. Gwerthusiad cenedlaethol o Dechrau'n Deg: Adroddiad synthesis astudiaeth achos ardal https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/national-evaluation-of-flying-start-area-case-study-synthesis-report.pdf (Saesneg yn unig).

[120] Llywodraeth Cymru, 2015. Gwerthusiad o Cymunedau 2.0: Adroddiad Gwerthuso Terfynol – Diwygiedig* https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/150728-evaluation-communities-20-final-revised-cy.pdf

[121] Llywodraeth Cymru, 2021. Tasglu'r Cymoedd: Cyfweliadau Rhanddeiliaid https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2021-03/rhaglen-tasglur-cymoedd-cyfweliadau-ansoddol-gyda-rhanddeiliaid.pdf

[122] Llywodraeth Cymru, 2015. Gwerthusiad o Cymunedau 2.0: Adroddiad Gwerthuso Terfynol – Diwygiedig* https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/150728-evaluation-communities-20-final-revised-cy.pdf

[123] Llywodraeth Cymru, 2021. Tasglu'r Cymoedd: Cyfweliadau Rhanddeiliaid https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2021-03/rhaglen-tasglur-cymoedd-cyfweliadau-ansoddol-gyda-rhanddeiliaid.pdf


[124] Llywodraeth Cymru, 2015. Gwerthusiad o Cymunedau 2.0: Adroddiad Gwerthuso Terfynol – Diwygiedig* https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/150728-evaluation-communities-20-final-revised-cy.pdf

8.17 Amlygodd gwerthusiadau o raglenni hefyd fod argaeledd gwasanaethau Cymraeg yn hwylusydd pwysig ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned (CynG, TC, DD, C2.0). Er enghraifft, roedd gweithgareddau ymgysylltu TC yn recriwtio unigolion gan ddefnyddio dull samplu pwrpasol i sicrhau y cafwyd cynrychiolaeth ar draws grwpiau demograffig-gymdeithasol – gan gynnwys grwpiau ffocws cyfrwng Gymraeg.[125]

8.18 Nododd gwerthusiad o DD nad oedd angen gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar y rhan fwyaf o'r rhieni a gyfwelwyd; fodd bynnag, roedd hyn yn ffactor pwysig i rai teuluoedd, a esboniodd eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus yn defnyddio gwasanaethau Cymraeg. Yn gyffredinol, roedd gan deuluoedd farn gymysg o ran hygyrchedd canfyddedig gwasanaethau cyfrwng Cymraeg – nodwyd bod hyn yn rhwystr cyson i rai pobl ar draws y tri cham o ymchwil ansoddol gyda theuluoedd DD.[126]

[125] Ymchwil Arad, 2017. Trafod y Cymoedd: Rhaglen Ymgysylltu. Adroddiad Ymchwil Arad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-07/trafod-y-cymoedd-rhaglen-ymgysylltu-adroddiad-terfynol.pdf
]
[126] Llywodraeth Cymru, 2018. Ymchwil ansoddol gyda theuluoedd Dechrau'n Deg: Cam 3 https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/ymchwil-ansoddol-gyda-theuluoedd-dechraun-deg-cam-3.pdf

## 9. Prif thema 2: Meithrin gallu




9.1 Mae prif thema 2, 'Meithrin gallu', yn ymwneud â meithrin gallu cymunedau neu gymryd camau gweithredu i rymuso aelodau'r gymuned i ddatblygu'r hyder a'r cymwyseddau sydd eu hangen i fanteisio ar y cymorth sydd ar gael a/neu i ddylanwadu ar wneud penderfyniadau yn eu hardal leol drwy ymgysylltu â'r gymuned.

**Is-thema 1: Nodi anghenion sgiliau a hyfforddiant**

9.2 Mae'r is-thema hon yn disgrifio pwysigrwydd cymryd camau i sicrhau bod aelodau'r gymuned yn cael cymorth a hyfforddiant i roi'r cymwyseddau penodol sydd eu hangen arnynt i ymgysylltu â'r rhaglen.

9.3 Amlygodd adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree,[127] a oedd yn asesu CynG, bwysigrwydd cymryd camau i sicrhau bod aelodau'r gymuned sy'n cymryd rhan yn cael cymorth a hyfforddiant i roi'r cymwyseddau penodol sydd eu hangen arnynt i ymgysylltu â gwaith partneriaid yn y gymuned. Roedd rôl timau datblygu cymunedol yn cael ei ystyried yn allweddol yn hyn o beth.

9.4 O ran DD, nodwyd bod lefelau llythrennedd isel rhieni plant DD yn rhwystro ymgysylltiad.[128] Amlygodd cyfweliadau â theuluoedd DD hefyd fod profiad o rianta (p'un a oeddent yn rhieni am y tro cyntaf neu beidio), profiad blaenorol o hawliau, a hyder (e.e. ddim eisiau mynychu sesiynau ar eu pen eu hunain) yn

[127] Adamson a Bromiley, 2008. Community empowerment in practice: Lessons from Communities First https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/2157-community-wales-empowerment.pdf (Saesneg yn unig).

[128] Llywodraeth Cymru, 2013. Gwerthusiad cenedlaethol o Dechrau'n Deg: Adroddiad synthesis astudiaeth achos ardal https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/national-evaluation-of-flying-start-area-case-study-synthesis-report.pdf (Saesneg yn unig).

rhwystrau i ymgysylltu.[129] Cafwyd tystiolaeth bod y cyfle i wella'r siawns o gael swyddi drwy ddatblygu sgiliau ac ennill tystysgrifau yn cymell teuluoedd i ymgysylltu â gwasanaethau DD.[130] Nododd gwerthusiad o DD hefyd fod cyflogi staff arbenigol i baratoi darpar gyfranogwyr cyn y cwrs yn ddull defnyddiol o hwyluso ymgysylltu.[131]

**Is-thema 2: Ystyriaethau ymarferol**

9.5 Mae'r is-thema hon yn ymwneud â rhwystrau ymarferol y mae'n bwysig eu hystyried wrth gynllunio gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned.

9.6 Er enghraifft, amlygodd cyfweliadau â theuluoedd DD fod amserlen sesiynau yn rhwystrau i ymgysylltu – er enghraifft, roedd oriau gwaith yn golygu nad oedd rhai rhieni'n gallu manteisio ar yr hawliau gofal plant y mae'r rhaglen yn eu cynnig.[132] Yn yr un modd, nododd astudiaeth ddichonoldeb Skyline anawsterau wrth ymgysylltu ag aelodau'r gymuned sydd o oedran gweithio.[133]

9.7 Er mwyn gael gwared ar rwystrau posibl i gyfranogiad, mae canllawiau LEADER yn argymell ystyried amseriad a lleoliadau sesiynau yn ofalus, y dylid darparu bwyd a lluniaeth, a chynnig gofal plant lle bo modd. [134]

**Is-thema 3: Ymddiriedaeth a pherthnasoedd cadarnhaol**

9.8 Mae'r is-thema hon yn ymwneud â meithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd cadarnhaol rhwng staff y rhaglen ac aelodau'r gymuned. Rhaid hefyd ystyried y cydbwysedd pŵer o fewn y partneriaethau er mwyn sicrhau bod llais y gymuned yn cael ei glywed.

---

[129] Llywodraeth Cymru, 2018. Ymchwil ansoddol gyda theuluoedd Dechrau'n Deg: Cam 3 https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/ymchwil-ansoddol-gyda-theuluoedd-dechraun-deg-cam-3.pdf

[130] Llywodraeth Cymru, 2018. Ymchwil ansoddol gyda theuluoedd Dechrau'n Deg: Cam 3 https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/ymchwil-ansoddol-gyda-theuluoedd-dechraun-deg-cam-3.pdf

[131] Llywodraeth Cymru, 2018. Ymchwil ansoddol gyda theuluoedd Dechrau'n Deg: Cam 3 https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/ymchwil-ansoddol-gyda-theuluoedd-dechraun-deg-cam-3.pdf

[132] Llywodraeth Cymru, 2018. Ymchwil ansoddol gyda theuluoedd Dechrau'n Deg: Cam 3 https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/ymchwil-ansoddol-gyda-theuluoedd-dechraun-deg-cam-3.pdf

[133] Cwmni Buddiannau Cymunedol The Green Valleys, 2019. Skyline: Report on the feasibility study into landscape-style community land stewardship in the South Wales Valleys https://www.thegreenvalleys.org/wp-content/uploads/skyline-final.pdf (Saesneg yn unig).

[134] Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop, 2016. LEADER Local Development Strategies (LDS): Guidance on design and implementation https://enrd.ec.europa.eu/sites/default/files/enrd-guidance_lds.pdf (Saesneg yn unig).

9.9 Er enghraifft, gwnaeth gwerthuso DD[135] amlygu pwysigrwydd ymddiriedaeth rhwng ymwelwyr iechyd a theuluoedd. Dywedodd nifer fach o deuluoedd DD fod perthynas negyddol gyda staff DD yn rhwystr i ymgysylltu, er enghraifft teimlo eu bod yn cael eu barnu neu nad oeddent yn gwrando arnynt. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai a holwyd eu bod wedi datblygu perthynas dda gyda'u hymwelydd iechyd ac roedd hyn yn golygu eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn cysylltu â nhw os oedd angen cymorth arnynt.

9.10 Cododd gwerthusiadau bryderon ynghylch mewnbwn ffurfiol y gymuned i brosesau penderfynu. Er enghraifft, tynnodd rhanddeiliaid TC sylw at y ffaith mai dim ond ar ôl i'r tasglu gael ei ffurfio y cyflwynwyd gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned. Roedd hyn yn golygu bod mewnbwn y gymuned i'r ffordd roedd y rhaglen yn cael ei chyflwyno wedi'i ymgyfyngu.[136] Codwyd pryderon tebyg gan randdeiliaid LEADER, a awgrymodd fod swyddogion prosiect Menter Môn weithiau'n cael mwy o ddylanwad ar gamau gweithredu'r rhaglen nag aelodau'r gymuned.[137]

9.11 Er mwyn mynd i'r afael ag anghydbwysedd grym mewn partneriaethau a sicrhau bod llais sy'n cynrychioli'r gymuned yn cael ei glywed, argymhellodd canllawiau LEADER y dylid ystyried perthnasoedd cymunedol presennol yn ofalus. Mae hyn yn golygu dewis aelodau dibynadwy o'r gymuned fel cadeiryddion ac osgoi unigolion y maent yn eu disgrifio fel "blocwyr", hynny yw, pobl y gallai eu cyfranogiad o bosibl atal neu rwystro pobl eraill rhag ymgysylltu.[138] Yn ogystal, amlygodd astudiaeth ddichonoldeb Skyline bwysigrwydd bod y grŵp rhanddeiliaid yn "cynghori ond nid yn arwain" y broses datblygu cymunedol.[139]

[135] Llywodraeth Cymru, 2018. Ymchwil ansoddol gyda theuluoedd Dechrau'n Deg: Cam 3 https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/ymchwil-ansoddol-gyda-theuluoedd-dechraun-deg-cam-3.pdf


[136] Llywodraeth Cymru, 2021. Tasglu'r Cymoedd: Cyfweliadau Rhanddeiliaid https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2021-03/rhaglen-tasglur-cymoedd-cyfweliadau-ansoddol-gyda-rhanddeiliaid.pdf

[137] Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd (2019). Gwerthusiad Canol Tymor Rhaglen LEADER yn Ynys Môn: Arloesi Môn https://businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/sites/walesruralnetwork/files/Ynys%20Mon%20LEADER%20mid-term%20-%20final%20-%20Cymraeg.pdf

[138] Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop, 2016. LEADER Local Development Strategies (LDS): Guidance on design and implementation https://enrd.ec.europa.eu/sites/default/files/enrd-guidance_lds.pdf (Saesneg yn unig).

[139] Cwmni Buddiannau Cymunedol The Green Valleys, 2019. Skyline: Report on the feasibility study into landscape-style community land stewardship in the South Wales Valleys https://www.thegreenvalleys.org/wp-content/uploads/skyline-final.pdf (Saesneg yn unig).

## Prif thema 3: Asedau cymunedol a nodweddion lleol




Mae'r thema hon yn ymwneud â defnyddio asedau cymunedol fel sylfaen ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a'i datblygu. Mae asedau cymunedol yma yn cynnwys adeileddau neu leoedd ffisegol, ond yn bwysig hefyd mae arweinwyr, grwpiau, gwasanaethau a busnesau cymunedol.

**Is-thema 1: Asedau cymunedol presennol**

9.12 Mae'r is-thema hon yn cynnwys y ffyrdd y cafodd asedau presennol y gymuned eu nodi, a'u defnyddio i ddarparu sail i ymgysylltu â'r gymuned a'i datblygu.

9.13 Roedd CynG yn cydnabod y byddai amrywiaeth gweithgarwch cymunedol a chyfalaf cymdeithasol presennol ardaloedd a dargedir yn ystyriaeth bwysig ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned, a bod angen i rai ardaloedd *"feithrin gallu ymlaen llaw"*(t.39).[140]

9.14 Amlygodd rhanddeiliaid C2.0 mai un o brif hwyluswyr ymgysylltu oedd y defnydd o leoliadau cymunedol hygyrch, a nodwyd bod sesiynau galw heibio mewn llyfrgelloedd wedi bod yn arbennig o effeithiol. Roedd darparu hyfforddiant drwy grwpiau cymunedol hefyd yn cael ei ystyried yn ddull llwyddiannus.[141]

9.15 Er mwyn annog cyfranogiad cymunedol, roedd gwerthusiad canol tymor rhaglen LEADER Arloesi Môn[142] yn argymell y dylai aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol genhadu, gan gynnwys hyrwyddo'r rhaglen drwy ddigwyddiadau a rhwydweithiau yn y gymuned. Sylwyd, fodd bynnag, y gallai defnyddio rhwydweithiau Menter Môn sydd eisoes yn bodoli o bosibl greu rhwystrau o ran cyflawni "cyswllt cymunedol gwirioneddol newydd" – mae hyn yn ystyriaeth bwysig i'w nodi.

---

[140] Adamson a Bromiley, 2008. Community empowerment in practice: Lessons from Communities First https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/2157-community-wales-empowerment.pdf (Saesneg yn unig).

[141] Llywodraeth Cymru, 2015. Gwerthusiad o Cymunedau 2.0: Adroddiad Gwerthuso Terfynol – Diwygiedig* https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/150728-evaluation-communities-20-final-revised-cy.pdf

[142] Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd (2019). Gwerthusiad Canol Tymor Rhaglen LEADER yn Ynys Môn: Arloesi Môn https://businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/sites/walesruralnetwork/files/Ynys%20Mon%20LEADER%20mid-term%20-%20final%20-%20Cymraeg.pdf

9.16 Er mwyn manteisio ar bosibiliadau'r asedau cymunedol presennol, canolbwyntiodd TC ar ymgysylltu â thrigolion, busnesau sy'n bodoli eisoes, a sefydliadau trydydd sector i wneud y gorau o fuddsoddiadau sydd eisoes ar waith drwy nodi prosiectau llwyddiannus ac ehangu ac ymestyn y gwaith hwn ar draws y Cymoedd.[143,144]

9.17 Mae astudiaeth ddichonoldeb Skyline[145] yn ymwneud â rheolaeth gymunedol ar asedau, sef perchnogaeth tir cymunedol. Mae'r adroddiad yn darparu tystiolaeth y gall prosiectau sydd â'r ffocws hwn wella ymgysylltiad â'r gymuned, gan ddyfynnu tystiolaeth o'r Alban sy'n dangos cyfranogiad uwch gan y cyhoedd mewn cymunedau â pherchnogaeth tir.

9.18 O ran dulliau ymarferol o nodi ac adeiladu ar yr asedau cymunedol presennol, mae canllawiau LEADER yn argymell "dadansoddiad rhanddeiliaid". Mae'r broses hon yn cynnwys y canlynol:

> *"Mapio a dadansoddi'r bobl, y mudiadau a'r sefydliadau sydd wedi cael effaith sylweddol ar ddatblygiad yr ardal neu a allai gael yr effaith hon. Mae'n nodi galluoedd a chyfraniadau craidd y partneriaid presennol neu'r partneriaid posibl ac y gellir ei gyflwyno fesul sector (cyhoeddus, preifat, a dinesig), ardal, neu yn ôl thema neu fath o weithgaredd. Gellir strwythuro'r dadansoddiad yn ôl cylch gwaith swyddogol sefydliadau neu bobl, eu diddordebau, eu gallu neu eu hadnoddau, neu brosiectau neu fuddiannau posibl y maent am eu hyrwyddo. Mae'r mapio hwn hefyd yn helpu i ddangos perthnasedd y bartneriaeth i'r ardal ac yn darparu tystiolaeth o ymgysylltiad y gymuned yn y ddogfen Strategaeth Datblygu Lleol. Mae adnoddau amrywiol ar gael i gynorthwyo gyda hyn (matricsau, diagramau cysylltiadau, diagramau gallu sefydliadol, mapiau meddwl, ac ati*)*"* (t.7-8).[146]

---

[143] Llywodraeth Cymru, 2021. Tasglu'r Cymoedd, 2016 – 2021: adroddiad terfynol https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/tasglu%27r-cymoedd-2016-2021-adroddiad-terfynol.pdf

[144] Llywodraeth Cymru, 2021. Tasglu'r Cymoedd: Cyfweliadau Rhanddeiliaid https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2021-03/rhaglen-tasglur-cymoedd-cyfweliadau-ansoddol-gyda-rhanddeiliaid.pdf

[145] Cwmni Buddiannau Cymunedol The Green Valleys, 2019. Skyline: Report on the feasibility study into landscape-style community land stewardship in the South Wales Valleys https://www.thegreenvalleys.org/wp-content/uploads/skyline-final.pdf (Saesneg yn unig).

[146] Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop, 2016. LEADER Local Development Strategies (LDS): Guidance on design and implementation https://enrd.ec.europa.eu/sites/default/files/enrd-guidance_lds.pdf (Saesneg yn unig).

**Is-thema 2: Seilwaith ffisegol**

9.19 Mae’r thema hon yn ymwneud ag agweddau ar yr amgylchedd ffisegol a all gyflwyno heriau i ymgysylltu a chyflawni.

9.20 Nododd gwerthusiadau (e.e. CynG a TC) y dylai rhaglenni sydd ar waith mewn cymunedau gwledig dwysedd isel, a chanddynt gysylltiadau trafnidiaeth gwael, gymryd camau i leihau'r rhwystrau y gallai pobl eu hwynebu i gyfranogi, wrth gynllunio gweithgareddau ymgysylltu yn y gymuned.[147,148,149]

9.21 Nododd gwerthusiad o CyG nifer o heriau eraill yn ymwneud â thargedu gofodol a nodweddion ffisegol yr ardaloedd a dargedwyd. Nododd y gwerthusiad astudiaethau achos o glystyrau gwledig yn cynnwys nifer o bentrefi anghysbell. Cafodd hyn effaith negyddol ar y cyllid oherwydd bu'n rhaid dyblygu'r gwasanaethau er mwyn eu gwneud yn hygyrch i aelodau'r gymuned a bu'n rhaid i'r rhaglen dalu costau cludo staff CynG. Yn olaf, cafwyd oedi wrth gyflwyno gweithgareddau'r rhaglen tra sefydlwyd prosesau sefydliadol oherwydd nad oedd gwasanaethau neu sefydliadau'n gweithredu ar draws y clwstwr cyfan. [150]

---


[147] Llywodraeth Cymru, 2021. Tasglu'r Cymoedd: Cyfweliadau Rhanddeiliaid https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2021-03/rhaglen-tasglur-cymoedd-cyfweliadau-ansoddol-gyda-rhanddeiliaid.pdf

[148] Llywodraeth Cymru, 2015. Cymunedau yn Gyntaf: gwerthusiad o'r broses https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150226-communities-first-process-evaluation-cy.pdf

[149] Adamson a Bromiley, 2008. Community empowerment in practice: Lessons from Communities First https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/2157-community-wales-empowerment.pdf (Saesneg yn unig).

[150] Llywodraeth Cymru, 2015. Cymunedau yn Gyntaf: gwerthusiad o'r broses https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150226-communities-first-process-evaluation-cy.pdf

## 10. Prif thema 4: Cyfleu nodau a chanlyniadau disgwyliedig




10.1 Mae'r thema hon yn ymwneud â phwysigrwydd bod partneriaethau cymunedol (yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol eraill, e.e. cyllidwyr a llunwyr polisi) yn cytuno ar nodau a disgwyliadau'r rhaglen a chyfleu'n glir yr hyn y gellir ei gyflawni'n realistig o fewn cyfyngiadau'r ffrâm amser, y cyllid, a'r adnoddau a roddwyd. Mae hyn yn cynnwys cydweithio effeithiol â'r gymuned i nodi beth yw'r broblem, sut y gellir mynd i'r afael â hi, ac i nodi canlyniadau gwirioneddol y gellir eu mesur i werthuso effeithiolrwydd y dull gweithredu seiliedig ar le.

**Is-thema 1: Cyfleu theori newid glir**

10.2 Mae is-thema 1 yn ymwneud â chyfleu theori newid glir i bennu “beth sy'n gweithio” o ran dulliau gweithredu seiliedig ar le i ymgysylltu â'r gymuned a darparu cymorth i gymunedau. Mae cyfleu'r canlyniadau gwirioneddol i aelodau'r gymuned hefyd yn ffordd bwysig o sicrhau bod ymgysylltiad yn parhau, a sicrhau na chaiff pobl eu siomi â'r rhaglenni.

10.3 Wrth weithio gyda thrigolion i fynd i'r afael â materion cymunedol, mae her wrth sicrhau cydbwysedd rhwng dulliau o'r brig i'r bôn ac o'r bôn i'r brig (a arweinir gan y gymuned) o ymgysylltu â'r gymuned a darparu cymorth i gymunedau. Mae gwerthusiad o CynG yn nodi bod dulliau gweithredu o'r brig i'r bôn yn tueddu i fod â ffocws culach a'u bod yn cael eu datblygu gyda chanlyniadau ac effeithiau penodol mewn golwg.[151] Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn cael ei feirniadu oherwydd y diffyg mewnbwn sydd gan y gymuned wrth lunio ei gweithgareddau.

10.4 I'r gwrthwyneb, mewn rhaglenni sy'n mabwysiadu ymagwedd o'r bôn i'r brig, mae'r gymuned yn allweddol i lywio'r ymyriad, ond mae gweithgareddau'n tueddu i fod â ffocws ehangach – sy'n cyflwyno heriau cynhenid i fonitro a gwerthuso'r

---

[151] Llywodraeth Cymru, 2015. Gwerthuso proses Cymunedau yn Gyntaf: Atodiad 1: Theori Newid https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150226-communities-first-process-evaluation-appendix1-en.pdf (Saesneg yn unig ond gweler adroddiadau eraill yn Gymraeg: https://llyw.cymru/gwerthuso-cymunedau-yn-gyntaf).

rhaglen.[152] Barn gyffredin ymhlith rhanddeiliaid oedd bod gweithgareddau'r rhaglen yn rhy eang eu cwmpas neu'n rhy uchelgeisiol ac y byddent wedi elwa, o bosibl, o'u mireinio (e.e. CynG, TC, C2.0, LEADER). Heriau eraill sy'n ymwneud â dulliau o'r bôn i'r brig yw bod y prosiect yn canolbwyntio ar faterion nad ydynt er budd gorau'r gymuned gyfan, o bosibl. Yn ogystal â hyn, wrth ystyried dulliau o'r bôn i'r brig, efallai na fyddai eu blaenoriaethau'n cyd-fynd â blaenoriaethau daearyddol neu genedlaethol ehangach, e.e. amcanion Llywodraeth Cymru.

10.5 Amlygwyd diffyg cywirdeb o ran nodau a dangosyddion perfformiad fel her ar draws holl werthusiadau'r rhaglenni a arweinir gan y gymuned (CynG, TC, C2.0, LEADER).

10.6 Er enghraifft, nododd rhanddeiliaid TC ei bod yn anodd asesu effeithiolrwydd y rhaglen oherwydd nad oedd dangosyddion perfformiad wedi'u rhoi ar waith i asesu effeithiau'r rhaglen dros amser.[153]

10.7 Amlygodd gwerthusiad canol tymor rhaglen LEADER Arloesi Môn[154] fod angen ffocws cliriach er mwyn sicrhau y caiff cyllid ei ddyrannu'n fwy effeithlon. Argymhellwyd y dylid cynnal adolygiad o brosiectau, gan gynnwys amlinellu'n glir sut mae prosiectau'n cyd-fynd â'r amcanion penodol o fewn pob un o'r pum thema.

10.8 Her gyffredin arall oedd bod rhaglenni yn aml yn esblygu dros amser (CynG, TC, C2.0). Roedd hyn yn cyflwyno heriau i ymgysylltu a chyflawni. Er enghraifft, adroddodd gwerthusiad o C2.0 fod y staff yn cael anawsterau i gyrraedd targedau gan fod angen iddynt addasu i flaenoriaethau'r rhaglen yn newid ffocws.[155] Mae nodau'n newid hefyd yn gwaethygu'r broblem o ddisgwyliadau gwahanol os na fydd cymunedau'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf neu os nad ydynt yn cytuno â nodau neu flaenoriaethau newydd y rhaglen. Mae risg hefyd y

[152] Llywodraeth Cymru, 2015. Gwerthuso proses Cymunedau yn Gyntaf: Atodiad 1: Theori Newid https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150226-communities-first-process-evaluation-appendix1-en.pdf (Saesneg yn unig ond gweler adroddiadau eraill yn Gymraeg: https://llyw.cymru/gwerthuso-cymunedau-yn-gyntaf).

[153] Llywodraeth Cymru, 2021. Tasglu'r Cymoedd, 2016 – 2021: adroddiad terfynol https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/tasglu%27r-cymoedd-2016-2021-adroddiad-terfynol.pdf

[154] Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd (2019). Gwerthusiad Canol Tymor Rhaglen LEADER yn Ynys Môn: Arloesi Môn https://businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/sites/walesruralnetwork/files/Ynys%20Mon%20LEADER%20mid-term%20-%20final%20-%20Cymraeg.pdf

[155] Llywodraeth Cymru, 2015. Gwerthusiad o Cymunedau 2.0: Adroddiad Gwerthuso Terfynol – Diwygiedig* https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/150728-evaluation-communities-20-final-revised-cy.pdf

bydd gofyn i raglenni wedyn ymateb i flaenoriaethau na chawsant eu cynllunio i ymateb iddynt yn wreiddiol. Gall hyn arwain at berfformiad aneffeithiol yn erbyn y blaenoriaethau newydd, a diffyg ffocws ar nodau gwreiddiol y rhaglen.


**Is-thema 2: Sefydlu cynlluniau i sicrhau gwaddol prosiectau**

10.9 Gwnaeth gwerthusiadau rhaglenni (e.e. LEADER, CynG, a Skyline) nodi pwysigrwydd rhaglenni sy'n gosod cynllun i sicrhau gwaddol prosiectau, gan nodi sut y byddant yn parhau i weithredu unwaith y daw'r cyllid a'r adnoddau a ddyrennir gan y rhaglen i ben.

10.10 Er mwyn cynnal ymgysylltiad a chefnogaeth, gwnaeth astudiaeth ddichonoldeb Skyline[156] argymell y dylai eu rhaglen arfaethedig ar gyfer y dyfodol nodi cynllun deng mlynedd a sicrhau bod y gymuned yn cytuno. Awgrymwyd cynnal arolwg cymunedol neu gael tystiolaeth debyg o gefnogaeth eang fel ffyrdd o asesu hyn.

[156] Cwmni Buddiannau Cymunedol The Green Valleys, 2019. Skyline: Report on the feasibility study into landscape-style community land stewardship in the South Wales Valleys https://www.thegreenvalleys.org/wp-content/uploads/skyline-final.pdf (Saesneg yn unig).

## 11. Prif thema 5: Cydweithio




11.1 Mae prif thema 5, ‘Cydweithio’, yn cyfeirio at arferion cydweithio o *fewn* a *rhwng* gwasanaethau i hwyluso ymgysylltu â'r gymuned a darparu cymorth i gymunedau, sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno'n effeithiol, ac osgoi dyblygu gwasanaethau.

**Is-thema 1: Cydweithio *rhwng* gwasanaethau**

11.2 Mae'r is-thema hon yn ymwneud â'r ffyrdd yr oedd rhaglenni'n gweithio gyda rhanddeiliaid allanol. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu ac alinio gweithgareddau â sefydliadau eraill, ac arferion rhwydweithio a rhannu gwybodaeth.

11.3 Roedd gwerthusiadau’n trafod rhwystrau a hwyluswyr yn ymwneud â chyfathrebu â rhanddeiliaid allanol yn ogystal ag alinio a chydgysylltu gweithgareddau ochr yn ochr â gwasanaethau eraill. Gall cydweithio nifer o randdeiliaid gael ei hwyluso neu ei lesteirio'n gryf gan berthnasoedd rhyngbersonol staff mewn gwahanol sefydliadau, a hyd yn oed staff o fewn gwahanol adrannau yn yr un sefydliad. Gall plwyfoldeb a gweithio mewn seilo fod yn rhwystrau sylweddol i gydweithio effeithiol.

11.4 Nodwyd yn eang bod TC wedi ymgysylltu'n dda â rhanddeiliaid ar draws sectorau ac awdurdodau lleol, a chafwyd tystiolaeth o gysylltiadau newydd yn cael eu sefydlu rhwng sefydliadau o ganlyniad i TC. Fodd bynnag, cafwyd llai o dystiolaeth bod yr ymgysylltiad hwn wedi cael ei gynnal yn yr hirdymor. Nododd gwerthusiadau ei bod yn fwy anodd cael y sectorau iechyd ac addysg i ymgysylltu â’r rhaglen, ond mae'n debygol bod COVID-19 wedi bod yn her sylweddol i ymgysylltu â byrddau iechyd.[157,158]

---

[157] Llywodraeth Cymru, 2021. Tasglu'r Cymoedd: Cyfweliadau Rhanddeiliaid https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2021-03/rhaglen-tasglur-cymoedd-cyfweliadau-ansoddol-gyda-rhanddeiliaid.pdf

[158] Llywodraeth Cymru, 2021. Tasglu’r Cymoedd, 2016 – 2021: adroddiad terfynol https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/tasglu%27r-cymoedd-2016-2021-adroddiad-terfynol.pdf

11.5 Cafwyd adroddiadau gan randdeiliaid bod y cyfuniad o dimau TC ac ymateb COVID-19 wedi helpu i atgyfnerthu cydweithio rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Nododd un awdurdod lleol fod cydweithio â Busnes Cymru wedi cryfhau o ganlyniad.[159]

11.6 Adroddodd rhanddeiliaid C2.0[160] hefyd fod y rhaglen wedi bod yn llwyddiannus o ran meithrin perthnasoedd a chydweithio'n effeithiol â sefydliadau cyfryngol, gan gynnwys awdurdodau lleol, Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a chlystyrau CynG, i hwyluso ymgysylltu â grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol. O ran llwyddiant ymgysylltu ehangach â sefydliadau trydydd sector, roedd y dystiolaeth yn fwy cymysg – nododd rhai rhanddeiliaid nad oedd C2.0 yn gydnaws â mentrau cynhwysiant digidol eraill. Nododd rhanddeiliaid TC[161] fod alinio â dulliau eraill hefyd wedi bod yn her, gan nodi bod cyfleoedd i gydweithio â Bargen Ddinesig Caerdydd wedi'u colli.

11.7 Yn yr un modd, nodwyd bod alinio CynG ochr yn ochr â rhaglenni trechu tlodi eraill (e.e. Teuluoedd yn Gyntaf, DD, a Chymunedau am Waith) yn her,[162] ac adroddodd rhanddeiliaid nad oedd y cysylltiadau rhwng rhaglenni'n glir tan ar ôl ailstrwythuro'r rhaglen yn 2012. Gwnaeth gwerthusiad o CynG godi pryderon hefyd bod y rhaglen yn dyblygu gwasanaethau sy'n dod o fewn cylch gorchwyl cyrff statudol eraill.[163] Rhoddwyd prosiect gan CynG a oedd yn canolbwyntio ar iechyd meddwl fel enghraifft – gwnaeth Sefydliad Bevan gwestiynu pam nad oedd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni gan y bwrdd iechyd mewn cydweithrediad â'r sefydliad trydydd sector yn lle CynG.[164,165]

---

159 Llywodraeth Cymru, 2021. Tasglu'r Cymoedd: Cyfweliadau Rhanddeiliaid https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2021-03/rhaglen-tasglur-cymoedd-cyfweliadau-ansoddol-gyda-rhanddeiliaid.pdf

160 Llywodraeth Cymru, 2015. Gwerthusiad o Cymunedau 2.0: Adroddiad Gwerthuso Terfynol – Diwygiedig* https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/150728-evaluation-communities-20-final-revised-cy.pdf

161 Llywodraeth Cymru, 2021. Tasglu'r Cymoedd: Cyfweliadau Rhanddeiliaid https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2021-03/rhaglen-tasglur-cymoedd-cyfweliadau-ansoddol-gyda-rhanddeiliaid.pdf

162 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017. Cymunedau yn Gyntaf: Yr Hyn a Ddysgwyd https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11141/cr-ld11141-w.pdf

163 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017. Cymunedau yn Gyntaf: Yr Hyn a Ddysgwyd https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11141/cr-ld11141-w.pdf

164 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017. Cymunedau yn Gyntaf: Yr Hyn a Ddysgwyd https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11141/cr-ld11141-w.pdf

165 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017. Cofnod y Trafodion. Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Mehefin 2017 https://business.senedd.wales/documents/s65353/7%20June%202017.html?CT=2

11.8 Dywedodd rhanddeiliaid CynG hefyd fod aliniad rhaglenni trechu tlodi yn cael ei rwystro gan wahaniaethau mewn cylchoedd ariannu a fframweithiau perfformiad.[166, 167]

11.9 Canfu gwerthusiad o TC fod cydweithio wedi'i hwyluso gan y ffordd y dosbarthwyd cyllid. Adroddodd rhanddeiliaid fod cyllid TC ar gael ar draws yr holl awdurdodau lleol yn hytrach na dyrannu arian wedi'i dargedu fwy i lai o ardaloedd.[168]

11.10 Er mwyn hwyluso alinio rhwng CynG a rhaglenni a gwasanaethau eraill, sefydlwyd Prosiect Cymunedau yn Gyntaf a Chymorth i Deuluoedd a arianwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.[169] Roedd hyn yn cynnwys digwyddiadau trechu tlodi rhanbarthol i hwyluso gweithio ar y cyd a fynychwyd gan gynrychiolwyr CynG, Teuluoedd yn Gyntaf a DD, yn ogystal â staff o'r trydydd sector, gwasanaethau iechyd, a llywodraeth leol. Adroddwyd hefyd bod cyflwyno fframwaith canlyniadau cyffredin ar draws CynG, Teuluoedd yn Gyntaf a DD wedi arwain at fwy o gydlyniad o ran amcanion cyffredin trechu tlodi ar draws y rhaglenni.[170]

11.11 Adroddodd rhanddeiliaid TC hefyd am amrywiaeth o ffyrdd yr oedd cydweithio rhwng sefydliadau wedi cael ei hwyluso, gan gynnwys digwyddiadau ymgynghori a drefnwyd gan yr is-grŵp trafnidiaeth, a ddaeth â thrigolion, gwleidyddion a sefydliadau rhanddeiliaid allweddol ynghyd, a "chynllunio creu lleoedd", a oedd yn cynnwys cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o feysydd trafnidiaeth, adfywio a thai ac o awdurdodau lleol.[171]

---

166 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017. Cymunedau yn Gyntaf: Yr Hyn a Ddysgwyd https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11141/cr-ld11141-w.pdf

167 Tystiolaeth ysgrifenedig, CF16 Cyngor Dinas Caerdydd, paragraff 14 https://business.senedd.wales/documents/s63317/CF%2016%20City%20of%20Cardiff%20Council.pdf (Saesneg yn unig).

168 Llywodraeth Cymru, 2021. Tasglu'r Cymoedd: Cyfweliadau Rhanddeiliaid https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2021-03/rhaglen-tasglur-cymoedd-cyfweliadau-ansoddol-gyda-rhanddeiliaid.pdf

169 Llywodraeth Cymru, 2015. Cymunedau yn Gyntaf: gwerthusiad o'r broses https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150226-communities-first-process-evaluation-cy.pdf

170 Llywodraeth Cymru, 2015. Cymunedau yn Gyntaf: gwerthusiad o'r broses https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150226-communities-first-process-evaluation-cy.pdf

171 Llywodraeth Cymru, 2021. Tasglu'r Cymoedd: Cyfweliadau Rhanddeiliaid https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2021-03/rhaglen-tasglur-cymoedd-cyfweliadau-ansoddol-gyda-rhanddeiliaid.pdf

11.12 Roedd gwerthusiadau rhaglenni yn trafod arferion rhwydweithio a rhannu gwybodaeth er mwyn dysgu o brosiectau eraill ac i atgyfeirio cleientiaid yn effeithiol at y gwasanaethau priodol.

11.13 Amlygodd gwerthusiad cenedlaethol o DD[172] fod angen cael mynediad at ddata ar deuluoedd er mwyn cyflawni gwasanaethau mwy integredig. Dywedwyd bod y rhaglen wedi gwneud cynnydd da o ran rhannu data gyda rhaglenni eraill megis Teuluoedd yn Gyntaf a CynG ac adroddodd bron i hanner fod ganddynt systemau ar waith i rannu data ag asiantaethau allanol. Yn ogystal â hyn, sefydlwyd protocolau rhannu gwybodaeth mewn ardaloedd DD i hwyluso'r broses hon.

11.14 Awgrymodd rhanddeiliaid TC y gallai'r gwahanol brosiectau a ariennir gan TC fod wedi gwneud mwy i rannu "gwersi a ddysgwyd" er mwyn helpu i nodi prosiectau llwyddiannus a'u hehangu o bosibl.[173]

11.15 Nododd gwerthusiad o raglenni LEADER Arloesi Môn,[174] CynG[175] a C2.0[176] hefyd bwysigrwydd rhannu gwybodaeth er mwyn i raglenni allu dysgu am brosiectau tebyg, nodi problemau cyffredin y daethpwyd ar eu traws, a rhannu atebion iddynt. Er enghraifft, argymhellodd gwerthusiad LEADER hefyd y dylai prosiectau cydweithredol gael eu datblygu gyda Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru ac yn yr UE. Amlygodd rhai o'r bobl a holwyd fod y Grwpiau Gweithredu Lleol wedi darparu cyfleoedd rhwydweithio, a nodwyd rhwydweithio gyda rhaglen Gwynedd. Mae 'Rhwydwaith Gwledig Cymru' gan LEADER hefyd i ddatblygu rhannu manylion prosiectau yng Nghymru, ond, er gwaethaf hyn, adroddodd aelodau Grwpiau Gweithredu Lleol mai prin oedd yr ymwybyddiaeth o brosiectau eraill ledled Cymru.

---

[172] Llywodraeth Cymru, 2013. Gwerthusiad cenedlaethol o Dechrau'n Deg: Adroddiad synthesis astudiaeth achos ardal https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/national-evaluation-of-flying-start-area-case-study-synthesis-report.pdf (Saesneg yn unig).

[173] Llywodraeth Cymru, 2021. Tasglu'r Cymoedd: Cyfweliadau Rhanddeiliaid https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2021-03/rhaglen-tasglur-cymoedd-cyfweliadau-ansoddol-gyda-rhanddeiliaid.pdf

[174] Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop, 2016. LEADER Local Development Strategies (LDS): Guidance on design and implementation https://enrd.ec.europa.eu/sites/default/files/enrd-guidance_lds.pdf (Saesneg yn unig).

[175] Llywodraeth Cymru, 2015. Cymunedau yn Gyntaf: gwerthusiad o'r broses https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150226-communities-first-process-evaluation-cy.pdf

[176] Llywodraeth Cymru, 2015. Gwerthusiad o Cymunedau 2.0: Adroddiad Gwerthuso Terfynol – Diwygiedig* https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/150728-evaluation-communities-20-final-revised-cy.pdf

11.16 Nododd astudiaeth ddichonoldeb Skyline mai un o rannau mwyaf llwyddiannus y prosiect oedd mynd ag aelodau o'r gymuned i'r Alban i alluogi timau i ddysgu o brosiect rheolaeth tir llwyddiannus a sut beth yw perchnogaeth a rheolaeth gymunedol o asedau yn ymarferol.[177]

**Is-thema 2: Gweithio ar y cyd o fewn gwasanaethau**

11.17 Mae'r is-thema hon yn trafod ffyrdd yr oedd staff yn cydweithio o fewn rhaglenni a phenderfynyddion cydweithio effeithiol. Mae hyn yn cynnwys meithrin gallu staff rhaglen, strwythurau a phrosesau partneriaethau cymunedol, a rhannu gwybodaeth fewnol.

11.18 Nododd gwerthusiad o DD fod rhannu gwybodaeth rhwng ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol o fewn y rhaglen wedi gwella'n sylweddol ers 2009,[13] gan nodi bod gan dros hanner ardaloedd DD systemau ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth o fewn y rhaglen erbyn 2012. O ran nod DD o gyflawni gwasanaeth sydd wedi'i integreiddio'n dda, adroddodd gwerthusiad cenedlaethol fod rhai ardaloedd wedi bod yn fwy llwyddiannus nag eraill yn hyn o beth. Nododd ardaloedd a oedd wedi sefydlu gwasanaethau mwy integredig fanteision o ran atgyfeiriadau cynt, mwy o fynediad, gwasanaethau mwy amlwg, a gwell hyfforddiant.[178] Roedd cyfweliadau â rhanddeiliaid yn adleisio hyn, ac adroddodd defnyddwyr gwasanaethau am gydweithio effeithiol o fewn y rhaglen – roedd atgyfeirio rhwng gwasanaethau DD yn effeithlon, ac roedd rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r cysylltiadau rhwng gwahanol hawliau DD.[179]

11.19 Pwysleisiodd gwerthusiad o TC[180] bwysigrwydd bod y tasglu yn cynnwys cydbwysedd o aelodau gwleidyddol a chynrychiolwyr ag arbenigedd ar draws ystod o sectorau – gan nodi bod yn rhaid i aelodau feddu ar ddealltwriaeth glir o'u rôl a'r gefnogaeth maent yn gallu ei chynnig. Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid yn gadarnhaol ynghylch y ffordd yr oedd y rhaglen yn gweithredu, gan nodi

---

[177] Cwmni Buddiannau Cymunedol The Green Valleys, 2019. Skyline: Report on the feasibility study into landscape-style community land stewardship in the South Wales Valleys https://www.thegreenvalleys.org/wp-content/uploads/skyline-final.pdf (Saesneg yn unig).

[178] Llywodraeth Cymru, 2013. Gwerthusiad cenedlaethol o Dechrau'n Deg: Adroddiad synthesis astudiaeth achos ardal https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/national-evaluation-of-flying-start-area-case-study-synthesis-report.pdf (Saesneg yn unig).

[179] Llywodraeth Cymru, 2018. Ymchwil ansoddol gyda theuluoedd Dechrau'n Deg: Cam 3 https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/ymchwil-ansoddol-gyda-theuluoedd-dechraun-deg-cam-3.pdf

[180] Llywodraeth Cymru, 2021. Tasglu'r Cymoedd, 2016 – 2021: adroddiad terfynol https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/tasglu%27r-cymoedd-2016-2021-adroddiad-terfynol.pdf

presenoldeb ac arweinyddiaeth gref y tasglu, a thryloywder o ran ei weithgareddau. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r bobl a holwyd y gallai'r rhaglen fod wedi elwa o drefniadau llywodraethu symlach a holodd eraill a oedd aelodau'r tasglu yn briodol i gyfrannu at benderfyniadau ynghylch ariannu.

11.20 Adroddodd rhanddeiliaid C2.0[181] am gydweithio effeithiol rhwng Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru [WEFO], yr Uned Cynhwysiant Digidol a C2.0. Nodwyd hefyd bod cyflwyno timau ardal leol integredig yn dilyn ailstrwythuro'r rhaglen yn 2012 wedi hwyluso ymgysylltu â sefydliadau sy'n cael cefnogaeth.

11.21 Gwnaeth gwerthusiadau drafod arferion meithrin gallu ymhlith staff y rhaglen. Adroddodd rhanddeiliaid CynG[182] am anawsterau recriwtio staff a chanddynt y set sgiliau sydd ei hangen ar gyfer rolau rheolwyr clwstwr a nodwyd bod y sgiliau angenrheidiol wedi newid ar ôl ailstrwythuro'r rhaglen, a bellach roedd galw am unigolion ag arbenigedd mewn rheoli prosiectau, pobl a chyllid. Gwnaed yn siŵr bod hyfforddiant parhaus ar gael i dimau clwstwr, yn eu plith dogfen ganllaw Cynllun Cynnwys y Gymuned, cymorth a ddarparwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru [CGGC} a Llywodraeth Cymru megis cymorthfeydd galw heibio, dysgu a chyfnewid rhwng cymheiriaid, a hyfforddiant pwnc penodol.

11.22 Gwnaeth C2.0 ymgorffori elfen "hyfforddi'r hyfforddwr" a oedd yn cynnwys cefnogi sefydliadau i hyfforddi gwirfoddolwyr i gyflwyno cyrsiau cynhwysiant digidol. Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod cynnwys gwirfoddolwyr yn gryfder sylweddol yn y rhaglen, gan adrodd am fanteision o ran meithrin gallu gwirfoddolwyr, gan gynnwys unigolion sy'n chwilio am waith a phobl hŷn, ond gan nodi hefyd bod manteision sylweddol i hyn o ran ymestyn cwmpas y rhaglen a meithrin perthynas â defnyddwyr gwasanaethau.[183]

11.23 Gwnaeth gwerthusiad canol tymor rhaglen LEADER Arloesi Môn[184] argymell y dylid cyflwyno rhaglen hyfforddi ar gyfer aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol yn

---

[181] Llywodraeth Cymru, 2015. Gwerthusiad o Cymunedau 2.0: Adroddiad Gwerthuso Terfynol – Diwygiedig* https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/150728-evaluation-communities-20-final-revised-cy.pdf

[182] Llywodraeth Cymru, 2015. Cymunedau yn Gyntaf: gwerthusiad o'r broses https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150226-communities-first-process-evaluation-cy.pdf

[183] Llywodraeth Cymru, 2015. Gwerthusiad o Cymunedau 2.0: Adroddiad Gwerthuso Terfynol – Diwygiedig* https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/150728-evaluation-communities-20-final-revised-cy.pdf

[184] Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd (2019). Gwerthusiad Canol Tymor Rhaglen LEADER yn Ynys Môn: Arloesi Môn https://businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/sites/walesruralnetwork/files/Ynys%20Mon%20LEADER%20mid-term%20-%20final%20-%20Cymraeg.pdf

cwmpasu materion yn ymwneud â'r Strategaeth Datblygu Lleol a dull LEADER. Nodwyd hefyd y dylid cael rhagor o gynrychiolaeth gan unigolion ag arbenigedd penodol yn yr ardaloedd ymyrraeth arfaethedig mewn cyfarfodydd.

11.24 Llwyddodd Skyline i ddwyn arbenigwyr o wahanol ddisgyblaethau at ei gilydd i gydweithio â chymunedau, gan gynnwys hwylusywr sy'n artistiaid, rheolwyr prosiectau lleol, ecolegwyr, cynghorwyr cyfreithiol, ac arbenigwyr technegol eraill. Nodwyd hefyd bod rhaid cymryd gofal i sicrhau bod arbenigwyr yn "gwasanaethu ond ddim yn arwain" y cynlluniau a osodir gan aelodau'r gymuned.[185]

[185] Cwmni Buddiannau Cymunedol The Green Valleys, 2019. Skyline: Report on the feasibility study into landscape-style community land stewardship in the South Wales Valleys https://www.thegreenvalleys.org/wp-content/uploads/skyline-final.pdf (Saesneg yn unig).

## 12. Casgliadau ac argymhellion

12.1 Mae'r adolygiad hwn yn darparu map cychwynnol o'r llenyddiaeth ar ddulliau gweithredu seiliedig ar le a sut y maent wedi'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â rhai o'r heriau allweddol sy'n wynebu cymunedau Cymru. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o ddulliau gweithredu seiliedig ar le a disgrifiad o'u nodweddion, yn ogystal â chrynodeb o'r rhesymeg ddamcaniaethol a'r dystiolaeth allweddol sy'n sail i'r dull hwn o weithredu. Cynhaliwyd synthesis o werthusiadau chwe astudiaeth achos o ddulliau gweithredu seiliedig ar le hefyd, er mwyn nodi rhwystrau a hwyluswyr cyffredin i ddulliau gweithredu seiliedig ar le i ymgysylltu â'r gymuned a darparu cymorth i gymunedau.

12.2 Y chwe astudiaeth achos a ddewiswyd oedd: Cymunedau yn Gyntaf [CynG], Tasglu'r Cymoedd [TC], Dechrau'n Deg [DD], LEADER (Arloesi Môn), Skyline, a Chymunedau 2.0 [C2.0].

12.3 Nod CynG, TC, a DD oedd mynd i'r afael â'r amrywiad daearyddol mewn cyfraddau amddifadedd yng Nghymru gan ddefnyddio targedu gofodol i liniaru effaith tlodi yn y cymunedau mwyaf difreintiedig o ran lle a buddiant.

12.4 Darparodd prosiect LEADER (Arloesi Môn) ystyriaethau defnyddiol ar gyfer dulliau gweithredu seiliedig ar le yn y dyfodol i raglenni datblygu gwledig yng Nghymru yng nghyd-destun ymadawiad y DU â'r UE.

12.5 Amlinellodd astudiaeth ddichonoldeb Skyline ddulliau gweithredu seiliedig ar le i hybu datblygu cynaliadwy, gan gynnwys rheolaeth tir cymunedol a phrosiectau ynni adnewyddadwy, sydd â'r potensial i wella ffyniant cymunedau glofaol gynt yng Nghymoedd y De a darparu strategaethau ymarferol ar gyfer mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

12.6 Yn olaf, rhoddodd C2.0 fentrau digidol ar waith drwy sefydliadau cymunedol a gwirfoddol i dargedu grwpiau sydd â risg uwch o allgáu digidol.

### Argymhellion

12.7 Datblygwyd yr argymhellion yn unol â'r pum prif thema o rwystrau a hwyluswyr i ymgysylltu â'r gymuned a darparu cymorth i gymunedau, a ddeilliodd o'r synthesis o werthusiadau astudiaethau achos. Gall hyn weithredu fel fframwaith ar gyfer datblygu polisi cymunedol.

**Thema 1: Cynhwysiant cymunedol**

12.8 Argymhelliad 1: Cymryd camau i hwyluso cynrychiolaeth gynhwysol wrth ymgysylltu â chymunedau.

12.9 Argymhelliad 2: Casglu dealltwriaeth fanwl o'r cymunedau lle a buddiant targed a mynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogi.

12.10 Argymhelliad 3: Defnyddio strategaethau marchnata effeithiol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o unrhyw weithgaredd neu raglen sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

12.11 Argymhelliad 4: Cefnogi gweithgareddau cymunedol i gynnig gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

12.12 Mae hwyluswyr i gyflawni'r argymhellion hyn yn cynnwys adroddiadau ardal leol – a all ddarparu dealltwriaeth fanwl o ddemograffeg gymdeithasol y cymunedau targed. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys gwaith allgymorth, rhoi cyhoeddusrwydd i weithgareddau, a defnyddio proses rheithgor dinasyddion.

**Thema 2: Meithrin gallu**

12.13 Argymhelliad 5: Nodi bylchau mewn sgiliau a chymryd camau i rymuso aelodau'r gymuned i ddatblygu'r hyder a'r cymwyseddau sydd eu hangen i fanteisio ar y cymorth sydd ar gael a/neu i ddylanwadu ar wneud penderfyniadau yn eu hardal leol.

12.14 Argymhelliad 6: Mynd i'r afael â rhwystrau ymarferol i ymgysylltu.

12.15 Argymhelliad 7: Meithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd cadarnhaol gydag aelodau o'r gymuned ac ystyried y cydbwysedd pŵer o fewn y partneriaethau cymunedol.

12.16 Mae hwyluswyr i gyflawni'r argymhellion hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd i feithrin gallu ar gyfer aelodau'r gymuned ac ystyried yn ofalus y strwythurau a'r prosesau sy'n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth.

**Thema 3: Asedau cymunedol a nodweddion lleol**

12.17 Argymhelliad 8: Nodi a defnyddio asedau cymunedol i hwyluso gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned a datblygu cymunedau.

12.18 Argymhelliad 9: Ystyried sut y gallai nodweddion ffisegol yr ardal darged fod yn rhwystr i ymgysylltu.

12.19 Argymhelliad 10: Ystyried sut y mae problemau cymunedau yn wahanol mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig a sut mae'r atebion i'r problemau hyn hefyd yn wahanol.

12.20 Mae hwyluswyr i gyflawni'r argymhellion hyn yn cynnwys dadansoddi rhanddeiliaid er mwyn nodi a meithrin asedau cymunedol.

**Thema 4: Cyfleu nodau a chanlyniadau disgwyliedig**

12.21 Argymhelliad 11: Rheoli disgwyliadau'r hyn y gellir ei gyflawni o fewn cyfyngiadau'r ffrâm amser, y cyllid, a'r adnoddau a roddwyd. Mae hyn yn cynnwys cydweithio'n effeithiol gyda'r gymuned i nodi beth yw'r broblem a sut y gellir mynd i'r afael â hi, ac i nodi canlyniadau gwirioneddol y gellir eu mesur i werthuso effeithiolrwydd y datrysiad.

12.22 Argymhelliad 12: Nodi cynllun i sicrhau bod prosiectau'n gadael gwaddol i'r dyfodol, gan nodi manylion sut y byddant yn parhau i weithredu unwaith y daw cefnogaeth y rhaglen i ben.

12.23 Mae hwyluswyr i gyflawni'r argymhellion hyn yn cynnwys datblygu theori newid glir wedi'i seilio ar dystiolaeth, yn nodi nodau, canlyniadau ac effeithiau gwirioneddol y dymunir o'r cychwyn cyntaf, a defnyddio arolwg cymunedol i asesu cefnogaeth y gymuned.

**Thema 5: Cydweithio**

12.24 Argymhelliad 13: Mabwysiadu arferion da o weithio ar y cyd o *fewn* a *rhwng* gwasanaethau i hwyluso ymgysylltu â'r gymuned a darparu cymorth i gymunedau, sicrhau y caiff y gwasanaethau eu darparu'n effeithiol, ac osgoi eu dyblygu.

12.25 Argymhelliad 14: Ystyried alinio a chydgysylltu gweithgareddau ochr yn ochr â gwasanaethau eraill.

12.26 Mae hwyluswyr i gyflawni'r argymhellion hyn yn cynnwys meithrin gallu staff, rhoi systemau ar waith i rannu gwybodaeth yn fewnol ac yn allanol, rhwydweithio, a rhannu “gwersi a ddysgwyd”.

**Cyfyngiadau ac ymchwil yn y dyfodol**

12.27 Dylid ystyried y canfyddiadau yng ngoleuni eu cyfyngiadau. Mae dewis astudiaethau achos a dadansoddi data ansoddol yn oddrychol. Hefyd, mae pob astudiaeth achos ar ddulliau gweithredu seiliedig ar le wedi cael ei rhoi ar waith yng Nghymru yn unig.

12.28 O ran ymchwil yn y dyfodol, gallai fod yn werthfawr cynnal adolygiad systematig o ddulliau gweithredu seiliedig ar le. Gallai hyn gynnwys synthesis o werthusiadau o raglenni eraill yng Nghymru, yn ogystal â dulliau gweithredu seiliedig ar le sydd wedi'u rhoi ar waith mewn mannau eraill yn y DU, ac yn rhyngwladol.